




Gweithgareddau Dysgu

Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy
a dinasyddiaeth fyd-eang o fewn
y cyfnod sylfaen – ADCDF



Newid yn yr
Hinsawdd



Yr Amgylchedd
Naturiol



Dewisiadau a
Phenderfyniadau



Hunaniaeth a
Diwylliant






Treuliant a
Gwastraff



Iechyd



Cyfoeth a
Thlodi



Hoffai'r cyhoeddwy'r ddiolch i Karen Mills am ei hymroddiad a'i hymrwymiad i ddatblygu'r gweithgareddau yn y llyfr hwn. Mae'r cyhoeddwy'r hefyd yn diolch i Mark Lancett ac aelodau'r panel monitro, Pam Mahoney, Clare Hardy, Hilary McConnell, Ann Evans a Bethan Parry Jones, am eu cyngor a'u harweiniad yn adolygu'r cynnwys.

ISBN-13: 978-84713-120-1

ISBN-10: 1-84713-120-4

Cyhoeddwyd yn gyntaf ym Mhrydain Fawr yn 2010 gan:

Tinopolis Rhyngweithiol Cyf
Canolfan Tinopolis
Stryd y Parc
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3YE
www.tinopolisinteractive.com

Hawlfraint © Tinopolis Rhyngweithiol Cyf 2010
Argraffwyd a rhwymwyd yng Nghymru.

Cedwir pob hawl. Heb gyfyngu ar yr hawliau o dan hawlfraint a gedwir uchod, ni ellir atgynhyrchu na storio unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na chyflwyno unrhyw ran ohono i mewn i system adalw, na throsglwyddo unrhyw ran ohono ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd (yn electronig, yn fecanyddol, drwy lungopio, recordio neu fel arall), heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan berchennog yr hawlfraint a chyhoeddwr y llyfr hwn.



Cyfoeth a Thlodi

Cydnabod bod gan bob un ohonon ni anghenion penodol, ond nad ydy'r anghenion hyn bod amser yn cael eu diwallu ym mhob man nac ym mhob cymdeithas, a deall y gall anghydraddoldeb effeithio'n ddifrifol ar fywydau pobl, ond y gall ein gweithredoedd ni fel unigolion/grwpiau helpu i fynd i'r afael â thlodi.

Cyflwyniad

Nod yr adnodd addysgu hwn yw annog plant yn y Cyfnod Sylfaen, 3-7 oed, i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u hamgylchedd a'u hannog i fwynhau'r hyn sydd o'u cwmpas a gofalu amdano. Wrth ddefnyddio'r adnodd, bydd plant yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru fel gwlad amlddiwylliannol. Byddan nhw hefyd yn gwerthfawrogi gwerth yr amrywiaeth honno ac yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'u rôl nhw fel dinasyddion byd-eang.

Mae'r adnodd hwn yn seiliedig ar un o'r saith thema Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) a nodir yn ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion', sef:

1. Cyfoeth a thlodi
2. Treuliant a gwastraff
3. Hunaniaeth a diwylliant
4. Newid yn yr hinsawdd
5. Iechyd
6. Yr amgylchedd naturiol
7. Dewisiadau a phenderfyniadau

Mae gan bob thema 3 gweithgaredd. Ym mhob gweithgaredd, nodir cysylltiadau i'r 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru' yn ogystal ag ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'. Dim ond awgrymiadau yw'r cysylltiadau hyn a bydd ymarferwyr yn sicrhau o weld rhagor o gysylltiadau i feysydd dysgu eraill ac i'r 'Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru'.

Y bwriad yw i bob gweithgaredd fod mor hyblyg â phosib. Nid ydyn ni'n awgrymu faint o amser i'w dreulio ar bob gweithgaredd. Gall yr ymarferydd fonitro diddordeb y plant er mwyn pennu hyd y gweithgaredd.

Mae'r gweithgareddau wedi'u llunio i'w defnyddio yn ystod tasgau â ffocws neu gyfleoedd dysgu wedi'u cyfoethogi. Dylai'r ymarferwyr ddewis a dethol sut i'w defnyddio'n briodol gan ystyried cyfnod datblygiad y plant. Bydd unrhyw weithgareddau rhagarweiniol a dilynol yn seiliedig ar ddatblygiad y plant ac unrhyw ddiddordebau ac awgrymiadau a fynegir. Hefyd, byddan nhw'n gysylltiedig ag unrhyw weithgareddau sy'n amlygu a/neu weithgareddau arfaethedig. Dylai cyfleoedd i hybu datblygiad creadigol gael eu plethu drwy'r gweithgareddau hyn e.e. chwarae rôl, drama, canu, dawnsio, celf.



Thema 1: Cyfoeth a Thlodi

Gweithgaredd 1: Pwy helpodd fi?

Nod:

- Galluogi plant i ddeall eu bod yn dibynnu ar waith pobl eraill am fwyd a dŵr.

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

- Dod yn feddylwyr ac yn ddysgwyr annibynnol (DPChLIADd)
- Datblygu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o rolau y mae pobl yn eu chwarae mewn gwahanol grwpiau a chymunedau (DPChLIADd)

Ystod:

- Cymryd rhan fel unigolion ac mewn grwpiau o wahanol faint, gan siarad â gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys ffrindiau, y dosbarth, athrawon, ymarferwyr, ac ymwelwyr ac oedolion cyfarwydd eraill (ILlCh)
- Dysgu sut a pham y mae pobl a lleoedd yn perthyn i'w gilydd (GDB)
- Datblygu ymwybyddiaeth o ddeunyddiau synthetig a deunyddiau naturiol, a gallu gwahaniaethu rhyngddynt (GDB)

ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Deall eu bod yn dibynnu ar waith pobl eraill am fwyd a dŵr

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Trafod pobl sy'n ein helpu ni/y gwaith mae pobl yn ei wneud.

Adnoddau ar y CD:

- 1.1 Gweithgaredd lluniau (PDF): Mae modd argraffu'r lluniau a'u defnyddio i gychwyn trafodaeth am gynhwysion paned o de a sut mae'r cynhwysion yn cael eu cynhyrchu.
- 1.2 Gweithgaredd trefnu (rhyngweithiol): Yn y gweithgaredd hwn, rhaid i'r plant lusgo lluniau a'u gosod mewn trefn i ddangos proses. Mae pedair proses gyda phedwar llun ym mhob proses.

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- Paned o de (oer!), bwrdd gwyn, bagiau te, te rhydd, gwahanol fathau o siwgr

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgareddau â ffocws ac wedi'u cyfoethogi

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Dylai'r ymarferydd fynd â phaned o de (oer) i'r ystafell ddosbarth a dweud ei bod/fod wedi gwneud paned o de iddi/iddo'i hun ond wedyn wedi meddwl tybed faint o bobl oedd wedi helpu i wneud y paned o de.



Thema 1: Cyfoeth a Thlodi

Gweithgareddau

Cynnar/amlygu

- Y plant i ddarganfod beth yw'r cynhwysion mewn paned o de – dail te, dŵr, llaeth, siwgr.
- Y plant i wneud pot o de oer a'i dywallt i mewn i gwpanau a thrafod beth i'w ychwanegu h.y. siwgr, llaeth, lemon, melysydd.
- Y plant i edrych ar de rhydd a bagiau te. Agor bagiau te i weld beth sydd y tu mewn iddyn nhw, ac edrych ar fagiau te o wahanol siapiau.
- Edrych ar de rhydd a'r te oedd y tu mewn i fagiau te o dan y microsgop digidol a'u disgrifio gan ddefnyddio pob un o'u synhwyrau.
- Edrych ar wahanol fathau o siwgr: siwgr gwyn gronynnog, siwgr brown, ciwbiau siwgr.
- Y plant i ddatblygu geirfa ar gyfer disgrifio gwahanol gydrannau paned o de.
- Gallech addasu'r ardal chwarae rôl i fod yn siop lle gall y plant brynu'r cynhwysion neu'n gegin lle gall y plant wneud te oer.
- Y plant i edrych ar y ffotograffau (gweithgaredd PDF 1.1) a'u cydweddu i ddangos o ble mae'r cynnyrch yn dod e.e. llaeth a buwch, dŵr a glaw, te a llwyn, siwgr a chansen/betysen siwgr.
- Trafod y bobl sy'n rhan o'r broses e.e. y ffermwr.
- Y plant i edrych ar y logo *Masnach deg* a thrafod beth mae'n ei olygu.

Amlygu/datblygu

- Fel Cynnar/amlygu, ond y plant hefyd i drafod sut mae'r cynhwysion yn cael eu gwneud/o ble maen nhw'n dod.
- Y plant i ddefnyddio'r gweithgaredd trefnu (gweithgaredd rhyngweithiol 1.2) i lusgo a gollwng lluniau i ddangos y broses y tu ôl i bob un o'r cynhwysion mewn paned o de e.e. llwyn te – dail yn cael eu casglu – bag te; glaw – cronfa ddŵr – tap; cansen siwgr – ffatri – siwgr; buwch – parlwr godro – llaeth.
- Y plant i drafod y bobl sy'n rhan o'r prosesau hyn.
- Trafod a yw'r bobl hyn i gyd yn byw yn y wlad hon.
- Y plant i drafod logos ar becynnau sy'n ein hannog ni i brynu cynhyrchion wedi'u cynhyrchu ym Mhrydain e.e. Red Tractor, baner Buy British.

Datblygu/atgyfnerthu

- Defnyddio'r gweithgaredd trefnu fel Amlygu/datblygu, ond y plant hefyd i drafod o ble yn y byd mae'r cynhwysion yn dod. Edrych ar becynnau i weld ble cafodd y cynhwysion eu tyfu.
- Y plant i ddefnyddio'r rhyngwyd i weld ble caiff te a siwgr ei dyfu. Mae'r ddau yn cael ei dyfu ym Mhrydain – te yng Nghernyw a betys siwgr yn Norfolk.
- Y plant i drafod y bobl sy'n rhan o'r holl brosesau hyn yn ogystal â'r bobl sy'n ymwneud â chludo'r cynhwysion a'u gwerthu yn y siopau.
- Trafod beth mae *Masnach deg* yn ei olygu.
- Y plant i ymweld ag archfarchnad/siop a chofnodi nifer y cynhyrchion *Masnach deg* a'r amrywiaeth ohonyn nhw.
- Trafod pam mae cynhyrchion *Masnach deg* yn cael eu gwerthu.
- Y plant i chwilio am logos eraill e.e. Red Tractor, Buy British etc.

Cwestiynau posib

- Beth sydd yn fy mhaned o de?
- O ble daw te? Beth ydy o?
- O ble daw dŵr?
- Sut mae'n cyrraedd y tap?
- O ble daw llaeth?
- Ydyn nhw erioed wedi gweld buwch?
- Beth arall sy'n cynhyrchu llaeth?
- Beth arall sy'n cael ei wneud o laeth?
- O ble mae'r siwgr yn dod?
- Sut mae cynhwysion paned o de yn cyrraedd y siop?
- Pa waith sy'n rhaid i bobl y siop ei wneud er mwyn i ni allu prynu'r cynhwysion?
- Beth ydy *Masnach deg*?
- Beth ydyn ni'n ei feddwl gyda *Masnach deg*?
- Pam dewis *Masnach deg*?
- Beth ydy ystyr logos eraill sy'n cael eu rhoi ar gynhyrchion?



Thema 1: Cyfoeth a Thlodi

Gweithgaredd 2: Cyfoethocach neu dlotach?

Nod:

- Galluogi plant i archwilio a thrafod beth sy'n bwysig iddyn nhw.

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

Ystod:

- Siarad yn hyderus, gan adeiladu ar brofiad blaenorol, a mynegi eu hunain yn glir trwy:
 - Gysylltu eu cyfraniadau i drafodaethau â'r hyn sydd wedi digwydd yn flaenorol trwy ystyried safbwyntiau tebyg/gwahanol a defnyddio'r confensiynau sy'n gysylltiedig â thrafod a sgwrsio (ILICH)
- Gwerthfawrogi ffrindiau a theuluoedd, a dangos gofal a bod yn ystyriol (DPChLIADd)
- Gofyn cwestiynau ynghylch beth sy'n bwysig mewn bywyd o safbwynt personol ac o safbwynt pobl eraill (DPChLIADd)
- Siarad/cyfathrebu, yn ddigymell a thrwy gyfrwng gweithgareddau strwythuredig, at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys:
 - Siarad am faterion sydd o ddiddordeb personol ac uniongyrchol iddynt
 - Gofyn ac ateb cwestiynau
 - Mynegi meddyliau, syniadau, hoffterau, cas bethau ac anghenion
 - Mynegi barn (ILICH)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Mae rhai'n gyfoethocach ac eraill yn dlotach

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Gwrando ar straeon am blant o gwmpas y byd a gweld beth sy'n eu gwneud nhw'n hapus neu'n drist.

Adnoddau ar y CD:

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- 2.1 Gweithgaredd lluniau (PDF): Mae modd argraffu'r lluniau/delweddau a'u defnyddio i gychwyn trafodaeth am ba ddelweddau sy'n bwysig i'r plant a pham.
- 2.2 Gweithgaredd graddio (PDF): Gall y lluniau/delweddau gael eu trefnu ar ffurf grid diemwnt gyda'r un pwysicaf ar y top a'r un lleiaf pwysig ar y gwaelod.
- Llyfrau stori am blant o gwmpas y byd

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws
- Trafod beth sy'n gwneud y plant yn hapus iawn. Ble maen nhw a beth maen nhw'n ei wneud? Gyda phwy maen nhw?



Thema 1: Cyfoeth a Thlodi

Gweithgareddau

Cynnar/amlygu

- Y plant i edrych ar y delweddau yn y lluniau (gweithgaredd PDF 2.1) a thrafod pa rai sy'n bwysig iddyn nhw e.e. ydy cael ffrindiau da yn bwysicach na chael llawer o deganau?
- Y plant i drafod a phenderfynu fel grŵp pa dri llun ydy'r rhai pwysicaf a dweud pam.

Datblygu/atgyfnerthu

- Y plant i edrych ar y delweddau yn y lluniau (gweithgaredd PDF 2.1) a thrafod pa rai ydy'r rhai pwysicaf a'r rhai lleiaf pwysig.
- Y plant i fynd ati fel grŵp i benderfynu sut i raddio'r lluniau (gweithgaredd PDF 2.2).
- Y plant i esbonio pam iddyn nhw roi'r lluniau yn y drefn honno.
- Y plant i drafod y cysyniad o 'gyfoethocach a thlotach' gyda'r ymarferydd. Ydy cyfoethog yn golygu llawer o arian neu ydy hi'n bosib bod yn 'gyfoethog' mewn ffyrdd eraill?

Cwestiynau posib

- Beth mae'r lluniau hyn yn ei ddangos?
- Pa rai ydych chi'n meddwl sy'n bwysig? Pam?
- Pa rai sydd ddim yn bwysig? Pam?
- Ydych chi i gyd yn cytuno? Pam rydych chi'n anghytuno?
- Pa bethau hofften ni eu cael?
- Pa bethau sydd eu hangen arnon ni?
- Beth ydyn ni'n ei feddwl gyda 'cyfoethocach neu dlotach'?
- Allwch chi fod yn 'gyfoethog' a bod heb arian o gwbl?



Gweithgaredd 3: Teimladau ac emosiynau?

Nod:

- Dechrau gwerthfawrogi sut mae eraill yn teimlo a beth sy'n deg a beth sy'n annheg

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

- Mynegi a chyfleu gwahanol deimladau ac emosiynau – eu rhai eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill (DPChLIADd)
- Bod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill a'u parchu (DPChLIADd)
- Ystyried goblygiadau geiriau a gweithredoedd iddynt hwy eu hunain ac eraill (DPChLIADd)
- Bod yn ymwybodol o'u teimladau eu hunain a datblygu'r gallu i'w mynegi mewn ffordd briodol (DPChLIADd)
- Deall y berthynas rhwng teimladau a gweithredoedd, a deall bod gan bobl eraill deimladau (DPChLIADd)

Ystod:

- Siarad/cyfathrebu, yn ddigymell a thrwy gyfrwng gweithgareddau strwythuredig, at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys:
 - Siarad am faterion sydd o ddiddordeb personol ac uniongyrchol iddynt
 - Gofyn ac ateb cwestiynau
 - Mynegi meddyliau, syniadau, hoffterau, cas bethau ac anghenion
 - Mynegi barn (ILlCh)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Trin pobl eraill yn deg
- Deall bod gan bobl eraill deimladau
- Datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n deg ac yn annheg

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Gwneud gwaith gyda doliau persona a phadlau emosiwn (padlau gyda llun wyneb trist, hapus, dig, ofnus etc arnyn nhw)

Adnoddau ar y CD:

- 3.1 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r gwenogluniau (emoticons) a'u defnyddio i gyhwyn trafodaeth ynghylch sut beth ydy bod yn hapus/trist etc.
- 3.2 Gweithgaredd cydweddu (rhyngweithiol): Y plant i ddewis cardiau a chydweddu'r parau (rhaid parhau i ddewis cardiau nes canfod pob pâr). Pan fydd pâr cywir wedi'i ganfod, bydd y cardiau hynny'n aros wedi'u troi drosodd ac ni fydd modd eu dewis eto.

Adnoddau ychwanegol sydd eu hangen arnoch:

- Doliau persona, padlau emosiwn, bwrdd gwyn

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws ac wedi'i gyfoethogi

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Trafod gyda'r plant beth yn eu barn nhw sy'n deg neu'n annheg a sut mae hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo



Thema 1: Cyfoeth a Thlodi

Gweithgareddau

Datblygu/atgyfnerthu

Gall canolbwyntio ar deimladau beri i faterion sensitif godi. Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o bwysigrwydd dilyn gweithdrefnau y cytunwyd arnyh nhw o ran amddiffyn a diogelu plant, pe byddai unrhyw un o'r gweithgareddau'n cymell disgyblion i roi atebion neu i ddatgelu gwybodaeth bersonol sy'n peri pryder.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael ar sut i addysgu materion a allai fod yn sensitif o adran addysg bersonol a chymdeithasol gwefan Llywodraeth Cymru.

- Dangos y gwenogluniau (emoticons) i'r plant (gweithgaredd PDF 3.1) a thrafod pa emosiwn sy'n cael ei gyfleu.
- Trafod sut maen nhw'n dangos y pedwar emosiwn sylfaenol: hapusrwydd/tristwch/ofn/dicter.
- Trafod sefyllfaoedd sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'r emosiynau mae'r lluniau'n eu cyfleu.
- Rhoi cyfle iddyn nhw actio sefyllfaoedd lle maen nhw'n profi'r emosiynau hyn – chwarae rôl.
- Trafod sut gallan nhw helpu eraill sy'n profi'r emosiynau hyn.
- Defnyddio'r gweithgaredd cydweddu (gweithgaredd rhyngweithiol 3.2) i ddarganfod yr emosiynau sy'n cydweddu â'i gilydd.
- Chwarae'r gêm teg/annheg – darllen datganiadau i'r plant a gofyn iddyn nhw sefyll ar ochr 'deg' neu ochr 'annheg' y neuadd/dosbarth e.e. doedd neb yn gadael i mi chwarae gyda nhw; fe rannon ni'r ffrwythau; mi gymerodd o'r lego i gyd; rhoddodd hanner y clai chwarae i mi.
- Trafod pam maen nhw'n meddwl bod y datganiad yn deg/annheg a sut bydden nhw'n teimlo pe byddai wedi hyn digwydd iddyn nhw.

Cwestiynau posib

- Pa emosiwn mae'r lluniau'n ei ddangos?
- Pryd maen nhw wedi teimlo'n hapus/yn drist/yn ddig/yn ofnus?
- Sut mae'n gwneud iddyn nhw deimlo y tu mewn?
- Ai pobl eraill/eu ffrindiau/eu teulu sydd wedi achosi hyn?
- Ydy teimlo'n ofnus yn hwyl weithiau?
- Pryd maen nhw'n mwynhau teimlo'n ofnus?
- Beth ydych chi'n gallu ei wneud pan rydych chi'n teimlo'n ddig?
- Pwy ddylech chi siarad â nhw pan fyddwch chi'n anhapus?
- Beth ddylech chi ei wneud os ydy'ch ffrind yn anhapus neu'n drist?



Thema 1: Cyfoeth a Thlodi

Nodiadau...



Treuliant a Gwastraff

Cynaliadwyedd; deall y bydd rhai adnoddau'n darford a bod y ffordd rydyn ni'n rheoli'r adnoddau hyn yn effeithio ar fusnesau ac ar ffordd o fyw pobl.

Cyflwyniad

Nod yr adnodd addysgu hwn yw annog plant yn y Cyfnod Sylfaen, 3-7 oed, i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u hamgylchedd a'u hannog i fwynhau'r hyn sydd o'u cwmpas a gofalu amdano. Wrth ddefnyddio'r adnodd, bydd plant yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru fel gwlad amlddiwylliannol. Byddan nhw hefyd yn gwerthfawrogi gwerth yr amrywiaeth honno ac yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'u rôl nhw fel dinasyddion byd-eang.

Mae'r adnodd hwn yn seiliedig ar un o'r saith thema Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) a nodir yn ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion', sef:

1. Cyfoeth a thlodi
2. Treuliant a gwastraff
3. Hunaniaeth a diwylliant
4. Newid yn yr hinsawdd
5. Iechyd
6. Yr amgylchedd naturiol
7. Dewisiadau a phenderfyniadau

Mae gan bob thema 3 gweithgaredd. Ym mhob gweithgaredd, nodir cysylltiadau i'r 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru' yn ogystal ag ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'. Dim ond awgrymiadau yw'r cysylltiadau hyn a bydd ymarferwyr yn sicrhgu weld rhagor o gysylltiadau i feysydd dysgu eraill ac i'r 'Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru'.

Y bwriad yw i bob gweithgaredd fod mor hyblyg â phosib. Nid ydyn ni'n awgrymu faint o amser i'w dreulio ar bob gweithgaredd. Gall yr ymarferydd fonitro diddordeb y plant er mwyn pennu hyd y gweithgaredd.

Mae'r gweithgareddau wedi'u llunio i'w defnyddio yn ystod tasgau â ffocws neu gyfleoedd dysgu wedi'u cyfoethogi. Dylai'r ymarferwyr ddewis a dethol sut i'w defnyddio'n briodol gan ystyried cyfnod datblygiad y plant. Bydd unrhyw weithgareddau rhagarweiniol a dilynol yn seiliedig ar ddatblygiad y plant ac unrhyw ddiddordebau ac awgrymiadau a fynegir. Hefyd, byddan nhw'n gysylltiedig ag unrhyw weithgareddau sy'n amlygu a/neu weithgareddau arfaethedig. Dylai cyfleoedd i hybu datblygiad creadigol gael eu plethu drwy'r gweithgareddau hyn e.e. chwarae rôl, drama, canu, dawnsio, celf.



Thema 2: Treuliant a Gwastraff

Gweithgaredd 1: Defnyddiau

Nod:

- Bod y plant yn deall y gall rhai defnyddiau gael eu hailddefnyddio a rhai eraill eu hailgylchu
- Galluogi'r plant i adnabod, cydweddu a grwpio defnyddiau synthetig a defnyddiau naturiol, a gosod prosesau mewn trefn

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

- Dod yn feddylwyr ac yn ddysgwyr annibynnol (DPChLIADd)
- Siarad am yr hyn sy'n dda ac yn ddrwg, yn gywir ac yn anghywir, yn deg ac yn annheg, yn ofalgar ac yn anystyriol (DPChLIADd)
- Llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau (GDB)
- Defnyddio geiriau ac ymadroddion syml ar gyfer eu byd ac ymglyfarwyddo â'r geiriau hynny (GDB)

Ystod:

- Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddechrau deall sut y gallant warchod yr amgylchedd a bod yn garedig iddo yn eu bywyd o ddydd i ddydd (DPChLIADd)
- Arbrofi â gwahanol wrthrychau cyffredin a defnyddio eu synhwyrau i'w rhoi mewn grwpiau yn ôl nodweddion syml (GDB)
- Datblygu ymwybyddiaeth o ddeunyddiau synthetig a deunyddiau naturiol, a gallu gwahaniaethu rhyngddynt (GDB)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Defnyddio adnoddau'n ofalus
- Gwaredu'n gyfrifol adnoddau a ddefnyddiwyd
- Deall y gellir ailgylchu rhai pethau ac aildefnyddio pethau eraill

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Adnabod a chwarae gydag amrywiaeth o ddefnyddiau synthetig a naturiol yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr amgylchedd awyr agored.

Adnoddau ar y CD:

- 1.1 Gweithgaredd gêm ddis (PDF): Gallwch argraffu'r PDF (papur A3 fyddai orau) a'i wneud yn ddis. Y plant i daflu'r dis a thrafod o ba ddefnyddiau mae'r ddelwedd yn y llun wedi'i gwneud.
- 1.2 Gweithgaredd trefnu (rhyngweithiol): Yn y gweithgaredd hwn, rhaid i'r plant lusgo lluniau a'u gosod mewn trefn i ddangos proses. Mae pedair proses â phedwar llun ym mhob proses.
- 1.3 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau a'u defnyddio i gychwyn trafodaeth neu gallwch dorri'r lluniau a'u gosod mewn 'pocedi wyneb' ar ddis mawr fel y rhai a ddefnyddir mewn gweithgareddau mathemateg yn aml.

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- Enghreifftiau o ddefnyddiau cyfarwydd, gan gynnwys ffabrigau; microsgop digidol; cylchoedd trefnu; bwrdd gwyn ar gyfer y gweithgaredd llusgo a gollwng.

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws neu wedi'i gyfoethogi

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Y plant i edrych ar ddefnyddiau/ffabrigau yn y dosbarth ac yn yr amgylchedd awyr agored



Thema 2: Treuliant a Gwastraff

Gweithgareddau

Cynnar/amlygu

- Y plant i enwi defnyddiau a'u disgrifio e.e. lliw, gwedd.
- Edrych ar wrthrychau a nodi o beth maen nhw wedi'u gwneud.
- Gwneud rhwbiadau o ddefnyddiau/gwrthrychau, gan ddefnyddio papur a chreionau, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr amgylchedd awyr agored.
- Arsyllu defnyddiau o dan y microsgop digidol a disgrifio'r nodweddion arsylladwy.
- Defnyddio'r gweithgaredd gêm ddis (PDF 1.1) a'r gweithgaredd lluniau (PDF 1.3) i adnabod ac enwi gwrthrychau cyfarwydd gan drafod o ba ddefnydd maen nhw wedi'u gwneud.
- Trafod gyda'r ymarferydd pa ddefnyddiau yn yr ystafell ddosbarth neu adref y gellir eu hailgylchu.

Datblygu/atgyfnerthu

- Fel Cynnar/amlygu, ond y plant hefyd i drafod beth i'w wneud ag eitemau gorffenedig pan na fydd eu hangen nhw mwyach. Ddylen nhw eu lleihau, eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu? Trafod sut i wneud hyn.
- Trafod a ydyn nhw'n ddefnyddiau synthetig neu naturiol.
- Y plant i ddefnyddio'r nodweddion arsylladwy i rannu gwrthrychau'n grwpiau gan ddefnyddio eu meini prawf syml eu hunain: lliw, gwedd, defnydd etc.
- Defnyddio microsgop digidol i greu lluniau o ffabrigau neu ddefnyddiau naturiol i'w cydweddu â defnyddiau/ffabrigau go iawn.
- Y plant i ddefnyddio'r gweithgaredd trefnu (rhyngweithiol 1.2) i lusgo lluniau a'u gosod mewn trefn i ddangos proses e.e. coeden – melin lifio – coed – papur; defaid – defaid yn cael eu cneifio – siwmpwr wlân; gwenith – melin flawd – blawd – bara; carreg – mwyn yn cael ei brosesu – metel – can.

Cwestiynau posib

- Beth sydd yn y llun?
- O beth mae wedi'i wneud?
- Sut olwg sydd arno?
- Sut byddech chi'n gosod y defnyddiau hyn mewn grwpiau?
- Pam roesoch chi'n nhw yn y grwpiau hynny?
- Allwch chi eu rhoi nhw mewn grŵp gwahanol?
- Pa luniau sy'n mynd gyda'i gilydd i ddweud stori?
- Beth allwn ni ei wneud â phethau pan na fydd eu hangen nhw arnon ni mwyach?
- Beth fyddai modd ei wneud yn y dosbarth i ddefnyddio llai?
- Sut gallech chi ostwng faint rydych chi'n ei ddefnyddio?
- Beth sy'n digwydd i bethau pan rown ni nhw yn y bin?
- Oes rhywbeth gwell y gallwn ni ei wneud â nhw?



Thema 2: Treuliant a Gwastraff

Gweithgaredd 2: Ailddefnyddio/ailgylchu

Nod:

- Bod y plant yn casglu a threfnu gwybodaeth
- Bod y plant yn deall y gall rhai defnyddiau gael eu hailddefnyddio a rhai eraill eu hailgylchu

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

Ystod:

- Dod yn feddylwyr ac yn ddysgwyr annibynnol (DPChLIADd)
- Siarad am yr hyn sy'n dda ac yn ddrwg, yn gywir ac yn anghywir, yn deg ac yn annheg, yn ofalgar ac yn anystyriol (DPChLIADd)
- Adnabod, casglu a threfnu gwybodaeth mewn cyd-destunau pwrpasol (DM)
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gynrychioli data a gasglwyd (DM)
- Defnyddio geiriau ac ymadroddion syml ar gyfer eu byd ac ymgyswrtu â'r geiriau hynny (GDB)
- Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddechrau deall sut y gallant warchod yr amgylchedd a bod yn garedig iddo yn eu bywyd o ddydd i ddydd (DPChLIADd)
- Mynegi data a gasglwyd gan ddefnyddio gwrthrychau go iawn, lluniau neu ddiagramau i ddechrau, cyn symud ymlaen i lunio amrywiaeth o siartiau, graffiau, diagramau, tablau neu gronfeydd data syml (DM)
- Arbrofi â gwahanol wrthrychau cyffredin a defnyddio eu synhwyrau i'w rhoi mewn grwpiau yn ôl nodweddion syml (GDB)

ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Defnyddio adnoddau'n ofalus
- Gwaredu'n gyfrifol adnoddau a ddefnyddiwyd
- Deall y gellir ailgylchu rhai pethau ac ailddefnyddio pethau eraill

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Casglu sbwriel yn y dosbarth ac yn yr amgylchedd awyr agored.

Adnoddau ar y CD:

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- 2.1 Gweithgaredd grwpio (rhyngweithiol): Yn y gweithgaredd hwn bydd y plant yn gosod gwahanol eitemau mewn dau grŵp – ailddefnyddio/ailgylchu. Rhaid i'r plant drafod y gwrthrychau sydd mewn 'bin sbwriel' a nodi pa rai na ddylai fod yno ac awgrymu beth i wneud â nhw yn lle hynny. Er enghraifft, gallwn gompostio bwyd; rhoi dillad/offer tŷ i siopau elusen; ailgylchu caniau/papur.
- Bwrdd gwyn ar gyfer y gweithgaredd llusgo a gollwng

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws neu wedi'i gyfoethogi
- Casglu sbwriel yn y dosbarth neu yn yr amgylchedd awyr agored a'u rhannu'n bethau y gallwn eu hailgylchu, eu hailddefnyddio neu eu taflu ar y domen sbwriel



Thema 2: Treuliant a Gwastraff

Gweithgareddau

Cynnar/amlygu

- Y plant i edrych ar sbwriel maen nhw wedi'i gasglu a nodi o ba ddefnydd mae wedi'i wneud. Trafod a fyddai wedi gallu cael ei ailgylchu. Os nad yw'n bosib ei ailgylchu, trafod ble i roi'r sbwriel.

Datblygu/atgyfnerthu

- Fel Cynnar/amlygu, ond llunio pictogram neu siart cofnod o'r pethau a gasglwyd a gofyn i'r plant ddisgrifio 'beth mae'r pictogram/siart cofnod yn ddweud wrtho i.'
- Defnyddio'r gweithgaredd grwpio (rhyngweithiol 2.1), naill ai wedi'i argraffu ar bapur neu ar fwrdd gwyn, a gofyn i'r plant ddarganfod a threfnu gwrthrychau yn rhai y gellir eu hailddefnyddio a gwrthrychau y gellir eu hailgylchu.
- Trafod sut maen nhw wedi grwpio'r gwrthrychau a pham.
- Trafod beth sydd orau: ailgylchu, lleihau neu ailddefnyddio.
- Edrych ar wrthrychau i ddarganfod logos ailgylchu a thrafod beth maen nhw'n ei feddwl.

Cwestiynau posib

- Beth allwn ni ei wneud â phethau pan na fydd eu hangen arnon ni mwyach?
- Beth allwch chi ei wneud yn yr ysgol neu adref i leihau/ailgylchu/ailddefnyddio?
- Beth sy'n digwydd i bethau sy'n cael eu rhoi yn y bin?
- Oes rhywbeth gwell y gallwn ni ei wneud â nhw?



Thema 2: Treuliant a Gwastraff

Gweithgaredd 3: Anghenion a chwantau

Nod:

- Y plant i ddeall bod chwantau ac anghenion yn ddau beth gwahanol

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

- Gofyn cwestiynau ynghylch beth sy'n bwysig mewn bywyd o safbwynt personol ac o safbwynt pobl eraill (DPChLIADd)
- Gwrando ac ymateb yn briodol ac yn effeithiol, gan ganolbwyntio a thalu sylw'n gynyddol (ILlCh)
- Didoli a grwpio gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh ar brydiau (GDB)

Ystod:

- Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt gyfleu eu syniadau, eu gwerthoedd a'u credoau mewn perthynas â hwy eu hunain, pobl eraill a'r byd (DPChLIADd)
- Siarad/cyfathrebu, yn ddigymell a thrwy gyfrwng gweithgareddau strwythuredig, at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys: mynegi meddyliau, syniadau a theimladau, hoffterau, cas bethau, ac anghenion (ILlCh)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Deall bod chwantau ac anghenion yn ddau beth gwahanol

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Trafod gyda'r plant beth fydden nhw'n ei hoffi ar gyfer eu pen-blwydd/y Nadolig/Eid.

Adnoddau ar y CD:

- 3.1 Gweithgaredd grwpio (rhyngweithiol): Yn y gweithgaredd hwn mae'n rhaid i'r plant rannu gwahanol eitemau'n ddau grŵp – chwantau ac anghenion.
- 3.2 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau a'u defnyddio i gychwyn sgwrs ar anghenion a chwantau.

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Gwaith blaenorol ar beth sydd ei angen ar blanhigion ac anifeiliaid i fyw a thyfu.



Thema 2: Treuliant a Gwasttraff

Gweithgareddau

Cynnar/amlygu/datblygu/atgyfnerthu

- Siarad â'r plant am yr hyn maen nhw'n ei feddwl sydd ei angen ar anifeiliaid anwes i fyw. Bydd anifeiliaid anwes yn cael dŵr, bwyd, gofal, tegantau, cytiau crand, powlenni bwyd arbennig, plancedi, gwelyau. Pa rai o'r rhain sydd eu hangen arnyn nhw i fyw?
- Dangos y lluniau (gweithgaredd PDF 3.2) i'r plant. Trafod cynnwys y lluniau gan ddefnyddio'r Cwestiynau posib.
- Gan ddefnyddio naill ai'r gweithgaredd lluniau (PDF 3.2) neu'r gweithgaredd grwpio (rhyngweithiol 3.1), penderfynu a yw'r lluniau'n disgyn i mewn i'r grŵp anghenion neu chwantau.
- Trafod mewn ffordd sensitif a ydyn nhw'n meddwl bod anghenion holl blant Cymru/gwledydd eraill wedi cael eu diwallu.
- Oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i helpu eraill i gael eu hanghenion wedi'u diwallu?

Cwestiynau posib

- Beth mae'r lluniau'n ei ddangos?
- Oes gan y plant rai o'r pethau hyn?
- Fydden nhw hoffi eu cael? Pam?
- Ydyn nhw'n meddwl bod gan bob plentyn yn y byd y pethau hyn?
- Ydyn nhw'n arbennig? Pam?
- Ydyn nhw'n ddrud iawn?
- Oes arnyn nhw eu hangen? Pam?
- Beth ydyn ni'n ei feddwl gydag 'anghenion'?
- Ydyn nhw'n gallu penderfynu beth sydd ei angen arnyn nhw i fyw a beth fydden nhw'n hoffi ei gael ond y gallen nhw fyw hebdo?



Thema 2: Treuliant a Gwasttraff

Nodiadau...



Hunaniaeth a Diwylliant

Cydnabod ein bod ni i gyd yn debyg ond yn wahanol; cydnabod a pharchu safbwyntiau, gwerthoedd a chredoau amrywiol a chydabod eu pwysigrwydd i siapiau bywydau a chymunedau.

Cyflwyniad

Nod yr adnodd addysgu hwn yw annog plant yn y Cyfnod Sylfaen, 3-7 oed, i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u hamgylchedd a'u hannog i fwynhau'r hyn sydd o'u cwmpas a gofalu amdano. Wrth ddefnyddio'r adnodd, bydd plant yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru fel gwlad amlddiwylliannol. Byddan nhw hefyd yn gwerthfawrogi gwerth yr amrywiaeth honno ac yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'u rôl nhw fel dinasyddion byd-eang.

Mae'r adnodd hwn yn seiliedig ar un o'r saith thema Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) a nodir yn ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion', sef:

1. Cyfoeth a thlodi
2. Treuliant a gwastraff
3. Hunaniaeth a diwylliant
4. Newid yn yr hinsawdd
5. Iechyd
6. Yr amgylchedd naturiol
7. Dewisiadau a phenderfyniadau

Mae gan bob thema 3 gweithgaredd. Ym mhob gweithgaredd, nodir cysylltiadau i'r 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru' yn ogystal ag ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'. Dim ond awgrymiadau yw'r cysylltiadau hyn a bydd ymarferwyr yn sicrhau o weld rhagor o gysylltiadau i feysydd dysgu eraill ac i'r 'Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru'.

Y bwriad yw i bob gweithgaredd fod mor hyblyg â phosib. Nid ydyn ni'n awgrymu faint o amser i'w dreulio ar bob gweithgaredd. Gall yr ymarferydd fonitro diddordeb y plant er mwyn pennu hyd y gweithgaredd.

Mae'r gweithgareddau wedi'u llunio i'w defnyddio yn ystod tasgau â ffocws neu gyfleoedd dysgu wedi'u cyfoethogi. Dylai'r ymarferwyr ddewis a dethol sut i'w defnyddio'n briodol gan ystyried cyfnod datblygiad y plant. Bydd unrhyw weithgareddau rhagarweiniol a dilynol yn seiliedig ar ddatblygiad y plant ac unrhyw ddiddordebau ac awgrymiadau a fynegir. Hefyd, byddan nhw'n gysylltiedig ag unrhyw weithgareddau sy'n amlgu a/neu weithgareddau arfaethedig. Dylai cyfleoedd i hybu datblygiad creadigol gael eu plethu drwy'r gweithgareddau hyn e.e. chwarae rôl, drama, canu, dawnsio, celf.



Thema 3: Hunaniaeth a Diwylliant

Gweithgaredd 1: Pethau tebyg

Nod:

- Deall yr hanfodion sy'n debyg rhwng pob bod dynol
- Deall bod pawb yn arbennig ac yn wahanol

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

- Trin pobl o bob cefndir diwylliannol mewn modd sy'n dangos parch a goddefgarwch (DPChLIADd)
- Siarad yn hyderus, gan adeiladu ar brofiad blaenorol, a mynegi eu hunain yn glir trwy:
 - Gysylltu eu cyfraniadau i drafodaethau â'r hyn sydd wedi digwydd yn flaenorol trwy ystyried safbwyntiau tebyg/gwahanol a defnyddio'r confensiynau sy'n gysylltiedig â thrafod a sgwrsio (ILlCh)
- Adnabod, casglu a threfnu gwybodaeth mewn cyd-destunau pwrpasol (DM)
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gynrychioli data a gasglwyd (DM)

Ystod:

- Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt gyfleu eu syniadau, eu gwerthoedd a'u credoau mewn perthynas â hwy eu hunain, pobl eraill a'r byd (DPChLIADd)
- Siarad/cyfathrebu, yn ddigymell a thrwy gyfrwng gweithgareddau strwythuredig, at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys: mynegi meddyliau, syniadau a theimladau, hoffterau, cas bethau, ac anghenion (ILlCh)
- Adnabod y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt hwy eu hunain a phlant eraill (GDB)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Deall yr hanfodion sy'n debyg rhwng pob bod dynol
- Deall bod pawb yn arbennig ac yn wahanol

Paratoi

Adnoddau ar y CD:

- 1.1 Gweithgaredd cydweddu (rhyngweithiol): Y plant i ddewis cardiau a chydweddu'r parau (rhaid parhau i ddewis cardiau nes canfod pob pâr). Pan fydd pâr cywir wedi'i ganfod, bydd y cardiau hynny'n aros wedi'u troi drosodd ac ni fydd modd eu dewis eto.
- 1.2 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau a'u defnyddio i gychwyn trafodaeth am blant o gwmpas y byd.

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- Map mawr o'r byd, bwrdd gwyn/cyfrifiadur ar gyfer y gweithgaredd rhyngweithiol

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws neu wedi'i gyfoethogi

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Trafod beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng gwahanol bobl a hefyd rhwng pobl ac anifeiliaid. Oes gan bob anifail yr un nodweddion, synhwyrau, yr un faint o freichiau/coesau. Y plant i lunio hunanbortread gan ddangos eu nodweddion nhw.



Thema 3: Hunaniaeth a Diwylliant

Gweithgareddau

Cynnar/amlygu

- Trafod gyda'r plant nodweddion corfforol gwahanol a thebyg. Y plant i lunio siartiau cofnod/pictogramau ar liw gwallt/liw llygaid plant y dosbarth, bachgen/merch etc. Pwysleisiwch mai cymharu nodweddion corfforol maen nhw, ac nid dillad/gwisgo sbectol etc.
- Y plant i ddefnyddio'r gweithgaredd cydweddu (rhyngweithiol 1.1) i ddod o hyd i'r wynebau sy'n cydweddu. Disgrifio nodweddion gwahanol wynebau.

Datblygu/atgyfnerthu

- Fel Cynnar/amlygu, ond hefyd y plant i edrych ar luniau o blant o gwmpas y byd (PDF 1.2, gweithgaredd lluniau).
- Trafod ym mha golofn yn y siartiau cofnod/pictogramau y dylen nhw nhw gael eu gosod o ran lliw gwallt/llygaid etc.
- Trafod nodweddion corfforol y plant yn y lluniau. Trafod sut maen nhw'n debyg a sut maen nhw'n wahanol i'r plant yn y dosbarth.
- Darganfod o ba wledydd ar y map o'r byd mae'r plant yn dod a thrafod pa mor bell o Gymru mae'r gwledydd hyn.
- Trafod:
 - Oes unrhyw un yn dod o'r gwledydd hyn?
 - Oes gan unrhyw un berthnasau'n byw yn y gwledydd hyn?
 - Oes unrhyw un wedi ymweld â'r gwledydd hyn?
- Trafod:
 - Oes cliwiau yn y lluniau i ddangos sut dywydd ydy hi?
 - Oes rhai o'r plant yn gwisgo eu gwisg genedlaethol?
 - Ydy'r plant yn gwisgo fel hyn bob amser?
 - Fydd rhai o'r plant yn y dosbarth yn gwisgo gwisg genedlaethol Cymru ac ydyn nhw'n gwisgo fel hyn bob amser?
- Trafod beth yn eu barn nhw mae'r plant yn y lluniau yn ei fwyta, ble maen nhw'n byw, pa gemau maen nhw'n chwarae?

Cwestiynau posib

- Beth ydy'r nodweddion sydd gennych chi ar eich wyneb?
- Faint o goesau, breichiau, dwylo a thraed sydd gennych chi?
- Oes gan y plant yn y lluniau'r un nodweddion?
- Sut mae'r plant yn y lluniau'n debyg i chi?
- Beth sy'n eich gwneud chi'n arbennig?
- O ba wlad rydych chi'n dod?
- Ble cawsoch chi'n geni?
- Allwch chi gael hyd i'r lle yma ar y map?
- O ba wledydd mae'r plant yn y lluniau'n dod?
- Allwch chi gael hyd i'r rhain ar y map?
- Pa liw ydy eich croen chi?
- Oes gan blant eraill yr un lliw croen?
- Ydy'r plant yn y lluniau wedi gwisgo'r un fath â chi?
- Os ydyn nhw wedi gwisgo'n wahanol, allwch chi feddwl pam?
- Ydyn nhw'n dod o wledydd poethach/oerach?
- Ydyn nhw'n gwisgo fel hyn bob dydd?
- Ydych chi'n gwisgo'r un fath bob dydd?
- Ydych chi'n gwisgo'n wahanol yn y gaeaf/yr haf?
- Oes mwy o bethau'n debyg neu fwy o bethau'n wahanol rhwng y plant yn eich dosbarth chi?
- Oes mwy o bethau'n debyg neu fwy o bethau'n wahanol rhwng eich dosbarth chi a'r plant yn y lluniau?
- Ddylen ni drin pawb yr un fath waeth o ba wlad maen nhw'n dod? Pam?



Thema 3: Hunaniaeth a Diwylliant

Gweithgaredd 2: Diwylliannau a chredoau

Nod:

- Deall bod pawb yn arbennig a gwahanol
- Deall bod eraill yn dathlu gwyliau gwahanol

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

- Siarad yn hyderus, gan adeiladu ar brofiad blaenorol, a mynegi eu hunain yn glir trwy:
 - gysylltu eu cyfraniadau i drafodaethau â'r hyn sydd wedi digwydd yn flaenorol trwy ystyried safbwyntiau tebyg/gwahanol a defnyddio'r confensiynau sy'n gysylltiedig â thrafod a sgwrsio (ILlCh)
- Develop a positive self-image and a sense of belonging as part of different communities and have an understanding of their own Welsh identity (DPCHLLADD)

Ystod:

- Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt gyfleu eu syniadau, eu gwerthoedd a'u credoau mewn perthynas â hwy eu hunain, pobl eraill a'r byd (DPChLIADd)
- Siarad/cyfathrebu, yn ddigymell a thrwy gyfrwng gweithgareddau strwythuredig, at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys: mynegi meddyliau, syniadau a theimladau, hoffterau, cas bethau, ac anghenion (ILlCh)
- Adnabod y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt hwy eu hunain a phlant eraill (GDB)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Deall bod pawb yn arbennig a gwahanol
- Deall bod eraill yn dathlu gwyliau gwahanol

Paratoi

Adnoddau ar y CD:

- 2.1 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau a'u defnyddio i gychwyn trafodaeth am eitemau sy'n gysylltiedig â Chymru.
- 2.2 Gweithgaredd grwpio (rhyngweithiol): Yn y gweithgaredd hwn, rhaid i'r plant rannu lluniau'n ddau grŵp – rhai sy'n gysylltiedig â Chymru neu ddim.

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- Arteffactau sy'n dathlu Cymru a/neu Ddydd Gŵyl Dewi, bwrdd gwyn/cyfrifiadur ar gyfer y gweithgaredd rhyngweithiol

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws neu wedi'i gyfoethogi

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Trafod beth sy'n digwydd ar ddiwrnodau arbennig fel dydd gŵyl Dewi, gemau rygbi/pêl-droed rhyngwladol



Thema 3: Hunaniaeth a Diwylliant

Gweithgareddau

Cynnar/amlygu

- Edrych ar y lluniau (gweithgaredd PDF 2.1) a thrafod beth mae pob un yn ei ddangos.
- Trafod a oes gan y plant ddillad arbennig ar gyfer dydd gŵyl Dewi ac ydyn nhw'n eu gwisgo ar unrhyw achlysuron eraill.
- Trafod a oes gan y plant yn y dosbarth ddillad arbennig eraill e.e. gwyliau diwylliannol eraill, priodasau, seremonïau bedydd etc.

Datblygu/atgyfnerthu

- Fel Cynnar/amlygu, ond hefyd y plant i drafod pa luniau sy'n arbennig i Gymru a pham.
- Trafod a oes unrhyw luniau'n dangos eitemau sy'n gysylltiedig â gwlad arall.
- Trefnu a grwpio'r lluniau (gweithgaredd rhyngweithiol 2.2) yn ôl rhai sy'n gysylltiedig â Chymru neu ddim.
- Trafod a oes pobl yng Nghymru sy'n dathlu gwyliau eraill.
- Trafod a ddylen ni ddisgwyl i bobl o wledydd eraill barchu ein diwylliant a'n credoau ni ac a ddylen ni barchu diwylliannau a chredoau pobl eraill.

Cwestiynau posib

- Beth sydd yn y llun?
- Ydych chi'n gwisgo dillad fel y rhai yn y llun? Pryd?
- Ydych chi'n gwisgo'r dillad arbennig hyn bob amser?
- Oes gennych chi neu ydych chi wedi gwisgo unrhyw ddillad arbennig eraill?
- Oes unrhyw rai o'r lluniau hyn yn arbennig i Gymru? Pam?
- Oes unrhyw un o'r lluniau'n arbennig i wlad arall? Pam?
- Pa luniau sy'n gysylltiedig â Chymru?
- Ydy pobl yng Nghymru'n dathlu gwyliau eraill?



Thema 3: Hunaniaeth a Diwylliant

Gweithgaredd 3: Nodi gwahaniaethau ac archwilio stereoteipiau

Nod:

- Cydnabod bod camwahaniaethu ac allgau yn gamwedd
- Deall bod pawb yn arbennig ac yn wahanol

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

- Bod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill a'u parchu (DPChLIADd)
- Cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain (DPChLIADd)
- Dechrau herio stereoteipiau (DPChLIADd)
- Deall y berthynas rhwng teimladau a gweithredoedd, a deall bod gan bobl eraill deimladau (DPChLIADd)

Ystod:

- Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt gyfleu eu syniadau, eu gwerthoedd a'u credoau mewn perthynas â hwy eu hunain, pobl eraill a'r byd (DPChLIADd)
- Dysgu am y synhwyrau y mae pobl ac anifeiliaid eraill yn meddu arnynt ac yn eu defnyddio i'w galluogi i fod yn ymwybodol o'r byd sydd o'u cwmpas (GDB)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Cydnabod bod camwahaniaethu ac allgau yn gamwedd
- Deall bod pawb yn arbennig ac yn wahanol

Paratoi

Adnoddau ar y CD:

- 3.1 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau a'u defnyddio i gychwyn trafodaeth am y namau a ddangosir yn y lluniau.
- 3.2 Gweithgaredd grwpio (rhyngweithiol): Yn y gweithgaredd hwn, rhaid i'r plant rannu'r lluniau'n ddau grŵp – defnyddiol i bobl anabl/anghyfleus i bobl anabl.

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- Doliau persona gyda sbectol/teclyn clywed/anabledd corfforol

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws neu wedi'i gyfoethogi

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Sôn am y synhwyrau a thrafod sut maen nhw'n bwysig i fodau dynol ac anifeiliaid



Thema 3: Hunaniaeth a Diwylliant

Gweithgareddau – *Bydd angen bod yn sensitif wrth ymdrin â'r gweithgareddau hyn oherwydd gallen nhw effeithio'n uniongyrchol ar blant yn y dosbarth.*

Cynnar/amlygu

Datblygu/atgyfnerthu

- Defnyddio lluniau 1 i 6 (PDF 3.1) a gofyn i'r plant ddisgrifio nodweddion corfforol y plant yn y lluniau.
- Gan ystyried lluniau 1 i 3, yr ymarferydd i ddweud wrth y grŵp y gall fod gan y plant hyn anghenion corfforol ychwanegol. Ydyn nhw'n gallu adnabod y rhain o'r cliwiau yn y lluniau?
- Gan ystyried lluniau 1 i 3, trafod a yw'r plant yn gallu nodi pa namau sy'n cael eu dangos.
- Trafod a oes gan rai o'r plant neu'r ymarferwyr yn y dosbarth/leoliad un o'r namau hyn neu a ydyn nhw'n adnabod unrhyw un sydd ag un o'r namau.
- Trafod a oes ganddyn nhw unrhyw beth i'w helpu nhw â'u hangenion corfforol e.e. sbectol/teclyn clywed. Sut maen nhw'n teimlo am wisgo sbectol/teclyn clywed etc? Trafod a oes rhai o'r plant eraill yn gwisgo sbectol haul yn yr haf. Pam?
- Trafod sut deimlad fyddai cael eu profocio am eu hangen corfforol. Trafod a fyddai gwisgo sbectol/teclyn clywed yn gallu achosi problem weithiau neu eu hatal rhag gwneud rhywbeth. Beth ellir ei wneud i sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu hatal rhag gwneud pethau?
- Os oes oedolyn sy'n gwisgo sbectol/teclyn clywed/defnyddio cadair olwyn yn fodlon cymryd rhan, gofynnwch iddo/iddi fod yn 'gocyn hitio' er mwyn i'r plant ei holi. Ydy eraill erioed wedi eu profocio neu eu gwneud yn ddigalon? Fel arall, defnyddiwch ddol persona i gynnal sesiwn holi ac ateb.
- Fel arfer, bydd y Gwasanaeth i Bobl â Nam ar eu Golwg/Clyw ym mhob awdurdod lleol yn ymweld â dosbarthiadau gyda gwahanol fathau o sbectolau/teclynnau clywed er mwyn i'r plant gael profi sut beth ydy cael 'gwelediad twnnel' neu nam ar eu golwg/clyw etc. Byddan nhw'n cael cyfle i edrych drwy ddefnydd di-draidd i brofi sut beth ydy peidio â gallu gweld yn glir.
- Trafod gyda'r grŵp tybed sut beth ydy bod yn ddall neu'n fyddar a sut gallwn ni helpu pobl i fyw gyda'u hanabledd. Bydd pobl o elusennau fel Cŵn Tywys i'r Deillion/Cŵn Clywed yn fodlon ymweld â dosbarthiadau i sôn am eu gwaith.
- Defnyddio cysgodlenni llygaid a gofyn a ydyn nhw'n gallu defnyddio eu synhwyrau eraill i archwilio'r byd o'u cwmipas¹.
- Defnyddio plygiau clust neu glustgapiau er mwyn i'r plant brofi sut beth ydy peidio â gallu clywed yn iawn.
- Trafod pa mor hawdd fyddai mynd o gwmpas y dosbarth/ysgol pe bydden nhw mewn cadair olwyn a beth fyddai'n gwneud hynny'n haws.
- Trefnu a grwpio'r lluniau (gweithgaredd rhyngweithiol 3.2) yn bethau sy'n helpu pobl â nam a phethau sy'n anghyfleus iddyn nhw. Trafod sut gall y plant helpu pobl anabl.
- Mae lluniau 4–6 yn dangos pobl yn cymryd rhan yn y Gemau Paralympaidd. Trafod â'r grŵp beth yw'r Gemau Paralympaidd a sut mae pobl anabl yn gallu cymryd rhan.
- Trafod pa weithgareddau sy'n cael eu dangos yn y lluniau ac a yw'n deg gwahaniaethu neu hepgor pobl anabl o weithgareddau am fod nam ganddyn nhw.

- Fel Cynnar/amlygu, ond dylid hefyd edrych ar lun 7.
- Trafod a oes gan y plentyn hwn nam amlwg ac a ydy'r rhain bob amser yn rhai y gallwn eu gweld.
- Trafod pa gyflyrau meddygol/namau y gall pobl eu cael – clefyd siwgr, asthma, awtistiaeth, problem â'r galon, diffyg arenol etc.
- Dydyn ni ddim bob amser yn gallu gweld namau ac oherwydd hyn, fydd pethau ddim yn cael eu newid o gwmpas y person. Mae hyn yn golygu na fyddan nhw'n gallu gwneud beth maen nhw eisiau ei wneud yn hawdd, neu bydd pobl yn dweud pethau sy'n gwneud i'r person deimlo'n ddigalon. Bydd nyrs yr ysgol, yn aml, yn ymweld â dosbarthiadau i esbonio sut mae problemau cudd yn gallu effeithio ar fywydau pobl.
- Trafod a ydy'r grŵp yn gallu meddwl am unrhyw achosion eraill lle mae pobl yn dioddef camwahaniaethu.
- Trafod gyda'r grŵp beth i'w wneud os ydyn nhw adnabod rhywun sy'n cael eu profocio neu sy'n ddigalon am fod eraill yn eu hallgau neu'n camwahaniaethu yn eu herbyn.

Cwestiynau posib

- Allwch chi ddisgrifio'r plentyn yn y llun?
- Beth sy'n debyg/wahanol i chi?
- Ydych chi'n adnabod unrhyw un sy'n gwisgo sbectol/teclynnau clywed/defnyddio cadair olwyn?
- Sut fath o bethau mae pobl anabl yn gallu eu gwneud?
- Sut gallwch chi eu helpu?
- Ydy hi'n deg eu hatal rhag gwneud pethau?
- Beth ddylech chi ei wneud os oes rhywun yn bod yn gas wrth rywun arall?

Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru (FDSW)

Sefydlad di-elw traws-abledd ydy Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru (FDSW) sydd â rhwydwaith o swyddogion datblygu chwaraeon i'r anabl. Ei nod ydy hyrwyddo chwaraeon i'r anabl a chynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan ynddyn nhw gan ddatblygu cyfleoedd da i bobl anabl ledled Cymru berfformio ym myd chwaraeon.

I gael gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw ewch i:

<http://www.disability-sport-wales.org/inyourarea.html>

neu ffoniwch: 0845 846 0021



Disability Sport Wales
Chwaraeon Anabledd Cymru

¹ Nod y gweithgaredd hwn ydy eu hannog i feddwl am eu synhwyrau eraill, ac er y gallen nhw deimlo ychydig yn nerfus yn defnyddio cysgodlenni llygaid neu blygiau clust, mae'n bwysig eu hatgoffa bod pobl sy'n Fyddar/yn drwm eu clyw neu'n Ddall/gweld yn rhannol wedi arfer â hyn, ac nid ydyn nhw'n byw bob dydd yn teimlo'n ofnus neu'n nerfus.



Thema 3: Hunaniaeth a Diwylliant

Nodiadau...



Newid yn yr Hinsawdd

Adnabod y gall llawer o ffactorau effeithio ar yr hinsawdd a bod newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar fodau dynol a phethau byw eraill.

Cyflwyniad

Nod yr adnodd addysgu hwn yw annog plant yn y Cyfnod Sylfaen, 3-7 oed, i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u hamgylchedd a'u hannog i fwynhau'r hyn sydd o'u cwmpas a gofalu amdano. Wrth ddefnyddio'r adnodd, bydd plant yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru fel gwlad amlddiwylliannol. Byddan nhw hefyd yn gwerthfawrogi gwerth yr amrywiaeth honno ac yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'u rôl nhw fel dinasyddion byd-eang.

Mae'r adnodd hwn yn seiliedig ar un o'r saith thema Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) a nodir yn ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion', sef:

1. Cyfoeth a thlodi
2. Treuliant a gwastraff
3. Hunaniaeth a diwylliant
4. Newid yn yr hinsawdd
5. Iechyd
6. Yr amgylchedd naturiol
7. Dewisiadau a phenderfyniadau

Mae gan bob thema 3 gweithgaredd. Ym mhob gweithgaredd, nodir cysylltiadau i'r 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru' yn ogystal ag ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'. Dim ond awgrymiadau yw'r cysylltiadau hyn a bydd ymarferwyr yn sicrhau o weld rhagor o gysylltiadau i feysydd dysgu eraill ac i'r 'Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru'.

Y bwriad yw i bob gweithgaredd fod mor hyblyg â phosib. Nid ydyn ni'n awgrymu faint o amser i'w dreulio ar bob gweithgaredd. Gall yr ymarferydd fonitro diddordeb y plant er mwyn pennu hyd y gweithgaredd.

Mae'r gweithgareddau wedi'u llunio i'w defnyddio yn ystod tasgau â ffocws neu gyfleoedd dysgu wedi'u cyfoethogi. Dylai'r ymarferwyr ddewis a dethol sut i'w defnyddio'n briodol gan ystyried cyfnod datblygiad y plant. Bydd unrhyw weithgareddau rhagarweiniol a dilynol yn seiliedig ar ddatblygiad y plant ac unrhyw ddiddordebau ac awgrymiadau a fynegir. Hefyd, byddan nhw'n gysylltiedig ag unrhyw weithgareddau sy'n amlgu a/neu weithgareddau arfaethedig. Dylai cyfleoedd i hybu datblygiad creadigol gael eu plethu drwy'r gweithgareddau hyn e.e. chwarae rôl, drama, canu, dawnio, celf.



Thema 4: Newid yn yr Hinsawdd

Gweithgaredd 1: Y tywydd a'r hinsawdd

Nod:

- Deall bod y tywydd yn newid gyda'r tymhorau
- Bod gan wahanol leoedd wahanol batrymau tywydd
- Bod y patrymau tywydd hyn yn effeithio ar y ffordd mae pobl yn byw

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

- Datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u cwmpas a deall yr hyn sydd gan eu hamgylchedd i'w gynnig iddynt pan fyddant yn chwarae ar eu pen eu hunain a gydag eraill (DPChLIADd)
- Llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau (GDB)
- Defnyddio geiriau ac ymadroddion syml ar gyfer eu byd ac ymgyfarwyddo â'r geiriau hynny (GDB)

Ystod:

- Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt gyfleu eu syniadau, eu gwerthoedd a'u credoau mewn perthynas â hwy eu hunain, pobl eraill a'r byd (DPChLIADd)
- Dechrau sylwi ar wahaniaethau rhwng eu hardal eu hunain ac ardaloedd mewn rhannau eraill o Gymru a gwahanol rannau o'r byd (GDB)
- Ymchwilio i sut y mae lleoedd yn newid, e.e. y tywydd, y tymhorau, adeiladau, swyddi pobl (GDB)
- Adnabod yr effeithiau y mae'r gwahanol dymhorau'n eu cael ar rai anifeiliaid a phlanhigion (GDB)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Deall bod y tywydd yn newid gyda'r tymhorau
- Deall bod gan wahanol leoedd wahanol batrymau tywydd
- Deall bod patrymau tywydd yn effeithio ar y ffordd mae pobl yn byw

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Cadw dyddiadur o'r tywydd dros gyfnod o amser.

Adnoddau ar y CD:

- 1.1 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau a'u defnyddio i gychwyn sgwrs am y tymhorau yn y lluniau.
- 1.2 Gweithgaredd dominos (PDF): Gallwch argraffu'r PDF a'i lamineiddio i wneud dominos. Fel hyn, bydd y plant yn gallu eu defnyddio'r tu mewn neu'r tu allan fel gweithgaredd wedi'i gyfoethogi. Byddai argraffu ar bapur A3 yn gwneud darnau mwy a fyddai'n haws i blant ifanc eu trin.
- 1.3 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau a'u defnyddio i gychwyn sgwrs am yr hinsawdd a ddangosir yn y lluniau.

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws neu wedi'i gyfoethogi

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Darllen straeon am blant sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r byd



Thema 4: Newid yn yr Hinsawdd

Gweithgareddau

Cynnar/amlygu

- Y plant i fynd allan a sylwi ar y tywydd.
- Disgrifio nodweddion y tywydd ar y pryd – ydy hi'n boeth/yn oer/yn gymylog/yn sych/yn wlyb/yn wyntog etc?
- Trafod a yw'r tywydd yr un peth bob dydd.
- Trafod sut mae'r tywydd wedi bod o'r blaen e.e. ydyn nhw'n gallu ei chofio hi'n bwrw eira/yn stormus/yn boeth iawn?
- Gofyn i'r plant ddod â ffotograffau ohonyn nhw'u hunain mewn mathau eraill o dywydd e.e. ar ylliau, yn chwarae yn yr eira.
- Ydy'r tywydd yn effeithio ar beth maen nhw'n ei wisgo? Sut?
- Ydy'r tywydd yn effeithio ar beth maen nhw'n gallu ei wneud? Sut?
- Ysgrifennu cerdd fel dosbarth/grŵp am y tywydd maen nhw wedi'i brofi.
- Peintio lluniau'n dangos y tywydd.

Amlygu/datblygu

- Fel Cynnar/amlygu, ond hefyd edrych ar y lluniau (gweithgaredd PDF 1.1) a thrafod y gwahanol dymhorau a ddangosir yn y lluniau.
- Trafod prif nodweddion tywydd pob tymor.
- Trafod beth sy'n digwydd i'r anifeiliaid a'r planhigion ym mhob tymor.
- Trafod a oes gan bawb yn y byd dymhorau fel ein rhai ni.
- Defnyddio'r gêm dominos (PDF 1.2) i gydweddu tymor â thymor.
- Dilyn hynt coeden, ar dir yr ysgol neu gerllaw i'r ysgol, drwy gydol y flwyddyn gan gadw cofnod ffotograffig o'r goeden yn dangos y newidiadau o fis i fis, o dymor i dymor.

Datblygu/atgyfnerthu

- Fel Amlygu/datblygu, ond hefyd edrych ar y lluniau (gweithgaredd PDF 1.3) a'u trafod.
- Trafod y tywydd a ddangosir yn y llun.
- Trafod sut gall hyn effeithio ar y plant a ddangosir yn y lluniau. Beth maen nhw'n ei wisgo ac a oes rheswm am hyn?
- Sut gallai'r tywydd effeithio ar y gemau mae'r plant yn eu chwarae, beth maen nhw'n ei fwyta, pa fath o dŷ maen nhw'n byw ynddo?
- Trafod pa rannau o'r byd sydd â phatrymau hinsawdd tebyg i'n rhai ni.

Cwestiynau posib

- Sut mae'r tywydd heddiw?
- Ydy'r tywydd bob amser yr un peth?
- Ydy hi'n oer/yn boeth/yn wyntog/yn wlyb/yn sych/yn gymylog?
- Pa ddillad ydych chi'n eu gwisgo pan mae'n boeth/oer?
- Ydy'r tywydd yn effeithio ar y gemau rydych chi'n eu chwarae?
- Ydych chi'n gwisgo'r un dillad bob amser?
- Pa dymor a ddangosir yn y llun?
- Sut rydych chi'n gwybod hyn?
- Beth sy'n digwydd i blanhigion yn y gaeaf?
- Beth sy'n digwydd i anifeiliaid yn y gaeaf?
- Sut gallai'r tywydd effeithio ar blanhigion ac anifeiliaid?
- Beth allwn ni ei wneud i'w helpu nhw?
- Beth mae'r plant yn y lluniau yn ei wneud?
- Sut mae'r tywydd yn lle mae'r plant hyn yn byw?
- Ydy'r tywydd fel hyn drwy'r amser?
- Oes ganddyn nhw dymhorau fel ein rhai ni?
- Beth maen nhw'n ei wisgo?
- Sut mae'r tywydd yn effeithio ar beth maen nhw'n ei wisgo?
- Sut mae'r tywydd yn effeithio ar beth maen nhw'n gallu ei wneud?



Thema 4: Newid yn yr Hinsawdd

Gweithgaredd 2: Beth sy'n defnyddio ynni?

Nod:

- Deall bod angen ynni i bweru goleuni, gwres a thrafnidiaeth
- Cydnabod pwysigrwydd arbed ynni
- Deall bod ffynonellau amgen o ynni o'r haul ac o wynt

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

Ystod:

- Cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain (DPChLIADd)
- Llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau (GDB)
- Defnyddio geiriau ac ymadroddion syml ar gyfer eu byd ac ymglyfarwyddo â'r geiriau hynny (GDB)
- Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddechrau deall sut y gallant warchod yr amgylchedd a bod yn garedig iddo yn eu bywyd o ddydd i ddydd (DPChLIADd)

ADCDF 'Cyf-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Cydnabod pwysigrwydd arbed ynni
- Deall bod angen ynni i bweru goleuni, gwres a thrafnidiaeth
- Deall bod ffynonellau amgen o ynni o'r haul ac o wynt

Paratoi

Adnoddau ar y CD:

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- 2.1 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau a'u defnyddio i gychwyn trafodaeth ynghylch a yw'r eitemau'n defnyddio ynni.
- 2.2 Gweithgaredd grwpio (rhyngweithiol): Yn y gweithgaredd hwn, rhaid i'r plant rannu'r lluniau'n ddau grŵp - pethau sy'n defnyddio ynni/ddim yn defnyddio ynni.
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol ar gyfer y gweithgaredd llusgo a gollwng

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws neu wedi'i gyfoethogi
- Cael hyd i'r holl bethau yn yr ystafell ddosbarth a'r amgylchedd awyr agored sy'n defnyddio ynni



Thema 4: Newid yn yr Hinsawdd

Gweithgareddau

Cynnar/amlygu

- Y plant i edrych ar y lluniau (gweithgaredd PDF activity 2.1) a thrafod a yw'r eitem dan sylw'n defnyddio ynni neu ddim.
- Trafod a yw defnyddio ynni'n golygu 'pethau gyda phlwg' yn unig.
- Y plant i rannu'r delweddau'n ddau grŵp (gweithgaredd rhyngweithiol 2.2): rhai sy'n defnyddio ynni neu ddim.
- Trafod a allwn ni arbed rhywfaint o'r ynni yma ac os felly sut, e.e. diffodd goleuadau pan na fydd eu hangen.

Datblygu/atgyfnerthu

- Fel Cynnar/amlygu, ond y plant hefyd i wneud rhestr o'r holl bethau maen nhw'n gwybod sydd angen ynni i'w pweru.
- Y plant i ddioli gwrthrychau a gasglwyd o'r dosbarth a'r amgylchedd awyr agored yn rhai sy'n defnyddio ynni a rhai sydd ddim.
- Trafod a allwn ni arbed rhywfaint o'r ynni hwn ac os felly sut, e.e. cerdded i'r ysgol.
- Edrych ar eitemau sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy (e.e. paneli solar, ynni'r gwynt, ynni dŵr) a thrafod o ble mae'r ynni'n dod ar gyfer pob eitem.
- Gwneud pethau sy'n gweithio drwy ddefnyddio celloedd solar.
- Edrych ar felinau gwynt a melinau dŵr a thrafod o ble mae'r ynni'n dod i falu'r yd.

Cwestiynau posib

- Pa bethau yn yr ystafell hon sydd angen ynni i weithio?
- O ble mae'r ynni'n dod?
- Ydy trydan yn gwneud i bethau weithio?
- Beth sy'n gwneud i'r golau ddod ymlaen?
- Beth sy'n gwneud i'r cyfrifiadur weithio?
- Beth sy'n gwneud i'r car fynd?
- Beth yw'r gwrthrychau yn y lluniau hyn?
- Oes angen ynni ar bob un ohonyn nhw i weithio?
- O ble mae'r ynni'n dod?
- Ddylen ni arbed yr ynni os nad ydyn ni'n defnyddio rhywbeth?
- Sut gallwn ni arbed yr ynni?



Thema 4: Newid yn yr Hinsawdd

Gweithgaredd 3: Rhaid ei arbed!

Nod:

- Galluogi plant i gydnabod pwysigrwydd arbed ynni a chredu y gallant wneud gwahaniaeth drwy eu gweithredoedd a'u hymddygiad

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

Ystod:

- Cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain (DPChLIAdd)
- Dechrau deall sut y gallant warchod yr amgylchedd a bod yn garedig iddo yn eu bywyd o ddydd i ddydd (DPChLIAdd)
- Adnabod sut y gall gweithredoedd pobl wella neu niweidio'r amgylchedd (GDB)

ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Cydnabod pwysigrwydd arbed ynni
- Credu y gallant wneud gwahaniaeth drwy eu gweithredoedd a'u hymddygiad

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Gwers flaenorol ar 'Beth sy'n defnyddio ynni?'

Adnoddau ar y CD:

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- 3.1 Gweithgaredd lluniau (gweithgaredd PDF): Gallwch argraffu'r lluniau hyn a'u defnyddio i gychwyn trafodaeth ynghylch a yw'r gweithgaredd a ddangosir yn arbed ynni neu'n defnyddio ynni.
- 3.2 Grwpio (gweithgaredd rhyngweithiol): Yn y gweithgaredd hwn, rhaid i'r plant rannu lluniau'n ddau grŵp - arbed ynni/defnyddio ynni.
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol ar gyfer y gweithgaredd llusgo a gollwng

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws neu wedi'i gyfoethogi
- Mynd dros y wers flaenorol ar 'Beth sy'n defnyddio ynni?'



Thema 4: Newid yn yr Hinsawdd

Gweithgareddau

Datblygu/atgyfnerthu

- Edrych ar y lluniau (gweithgaredd PDF 2.1) o'r wers 'Beth sy'n defnyddio ynni?'.
- Trafod pam dylen ni fanteisio ar gyfleoedd i arbed ynni.
- Gofyn i'r plant beth fydden nhw'n gallu ei wneud i arbed ynni mewn diwrnod/wythnos.
- Edrych ar fesurydd ynni a diffodd goleuadau/cyfrifiadur i weld a yw'n gwneud gwahaniaeth i'r defnydd o ynni.
- Edrych ar y lluniau (gweithgaredd PDF 3.1) a thrafod a yw'r gweithgaredd dan sylw'n arbed ynni neu ddim.
- Y plant i rannu'r lluniau'n ddau grŵp (gweithgaredd rhyngweithiol 3.2): pethau sy'n arbed ynni neu ddim.
- Y plant i benderfynu beth fydden nhw'n gallu ei wneud yn yr ysgol ac yn y cartref i arbed ynni.

Cwestiynau posib

- Ydych chi'n cofio'r lluniau hyn?
- Beth benderfynon ni oedd yn cael ei ddangos ynddyn nhw?
- Pa eitemau oedd yn defnyddio ynni i weithio?
- Pam mae ynni'n werthfawr?
- Beth allwn ni ei wneud i beidio â'i wastraffu?
- Edrychwch ar y lluniau hyn? Beth maen nhw'n ei ddangos?
- Pa luniau sy'n dangos pobl yn defnyddio ynni?
- Pa luniau sy'n dangos pobl yn arbed ynni?
- Allwch chi eu rhoi mewn trefn?
- Sut gallech chi arbed ynni?



Thema 4: Newid yn yr Hinsawdd

Nodiadau...



Iechyd

Deall hanfodion 'iechyd da' a deall effaith dewisiadau o ran iechyd ar ansawdd bywyd pob un ohonon ni.

Cyflwyniad

Nod yr adnodd addysgu hwn yw annog plant yn y Cyfnod Sylfaen, 3-7 oed, i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u hamgylchedd a'u hannog i fwynhau'r hyn sydd o'u cwrpas a gofalu amdano. Wrth ddefnyddio'r adnodd, bydd plant yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru fel gwlad amlddiwylliannol. Byddan nhw hefyd yn gwerthfawrogi gwerth yr amrywiaeth honno ac yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'u rôl nhw fel dinasyddion byd-eang.

Mae'r adnodd hwn yn seiliedig ar un o'r saith thema Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) a nodir yn ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion', sef:

1. Cyfoeth a thlodi
2. Treuliant a gwastraff
3. Hunaniaeth a diwylliant
4. Newid yn yr hinsawdd
5. Iechyd
6. Yr amgylchedd naturiol
7. Dewisiadau a phenderfyniadau

Mae gan bob thema 3 gweithgaredd. Ym mhob gweithgaredd, nodir cysylltiadau i'r 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru' yn ogystal ag ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'. Dim ond awgrymiadau yw'r cysylltiadau hyn a bydd ymarferwyr yn sicr o weld rhagor o gysylltiadau i feysydd dysgu eraill ac i'r 'Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru'.

Y bwriad yw i bob gweithgaredd fod mor hyblyg â phosib. Nid ydyn ni'n awgrymu faint o amser i'w dreulio ar bob gweithgaredd. Gall yr ymarferydd fonitro diddordeb y plant er mwyn pennu hyd y gweithgaredd.

Mae'r gweithgareddau wedi'u llunio i'w defnyddio yn ystod tasgau â ffocws neu gyfleoedd dysgu wedi'u cyfoethogi. Dylai'r ymarferwyr ddewis a dethol sut i'w defnyddio'n briodol gan ystyried cyfnod datblygiad y plant. Bydd unrhyw weithgareddau rhagarweiniol a dilynol yn seiliedig ar ddatblygiad y plant ac unrhyw ddiddordebau ac awgrymiadau a fynegir. Hefyd, byddan nhw'n gysylltiedig ag unrhyw weithgareddau sy'n amlygu a/neu weithgareddau arfaethedig. Dylai cyfleoedd i hybu datblygiad creadigol gael eu plethu drwy'r gweithgareddau hyn e.e. chwarae rôl, drama, canu, dawnsio, celf.



Gweithgaredd 1: O ble mae'n dod?

Nod:

- Galluogi plant i ddeall bod pob math o fwyd yn dod o anifeiliaid neu blanhigion

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

- Cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain (DPChLIADd)
- Arbrofi â chyfleoedd dysgu newydd, gan gynnwys TGCh (DPChLIADd)
- Didoli a grwpio gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh ar brydiau (GDB)

Ystod:

- Siarad/cyfathrebu, yn ddigymell a thrwy gyfrwng gweithgareddau strwythuredig, at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys: mynegi meddyliau, syniadau, hoffterau, cas bethau ac anghenion (ILCh)
- Casglu, cynrychioli a dehongli data: didoli a dosbarthu setiau o wrthrychau gan ddefnyddio un neu ragor o feini prawf (DM)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Galluogi plant i ddeall bod pob math o fwyd yn dod o anifeiliaid neu blanhigion

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Trafod hoff/cas fwydydd y plant.

Adnoddau ar y CD:

- 1.1 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau a'u defnyddio i gychwyn sgwrs am wahanol fwydydd ac o ble maen nhw'n dod.
- 1.2 Gweithgaredd grwpio (rhyngweithiol): Yn y gweithgaredd hwn rhaid i'r plant rannu bwydydd yn ddau grŵp – planhigion neu anifeiliaid. NB, nid yw'r gweithgaredd hwn yn cywiro'i hun.
- 1.3 Gweithgaredd dominos (PDF): Gallwch argraffu'r PDF a'i lamineiddio i wneud dominos. Fel hyn, gall y plant eu defnyddio'r tu mewn neu'r tu allan fel gweithgaredd wedi'i gyfoethogi. Byddai argraffu ar bapur A3 yn gwneud darnau mwy a fyddai'n haws i blant ifanc eu trin. Y plant i gydweddu bwyd â'i ffynhonnell.

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- Enghreifftiau go iawn/plastig o'r bwydydd yn y lluniau, a bwydydd eraill, i annog trafodaeth ychwanegol

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws neu wedi'i gyfoethogi

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Y grŵp i drafod eu hoff/cas fwydydd. Ydyn nhw'n gwybod o ble mae'r bwyd yn dod?



Gweithgareddau

Cynnar/amlygu

- Y plant i edrych ar y lluniau (gweithgaredd PDF 1.1) a'u cydweddu â gwrthrychau go iawn/plastig.
- Y plant i drafod a ydyn nhw'n bwyta'r pethau hyn, yn eu hoffi/ddim yn eu hoffi.
- Y plant i drafod sut maen nhw'n eu bwyta e.e. wyau wedi berwi/ffrio/oer etc, fel rhan o bryd e.e. cinio rhost, yn amrwd neu wedi'i goginio.
- Trafod ble rydyn ni'n prynu ein bwyd. Byddai modd gwneud cysylltiadau â hanes yma a sut roedd bwyd yn cael ei werthu yn y gorffennol.
- Trafod o ble mae'r bwyd yn dod ym marn y plant.
- Y plant i gynhyrchu peintiadau o'r bwydydd neu ble maen nhw'n dod.
- Trafod y gwahaniaethau rhwng planhigion ac anifeiliaid, sut maen nhw'n cael eu cadw, pwy sy'n eu cadw/tyfu.
- Y plant i blannu cnydau bwyd yng ngardd yr ysgol.

Datblygu/atgyfnerthu

- Fel Cynnar/amlygu, ond y plant hefyd i drafod sut gellir gwneud mwy nag un peth allan o gynnyrch gwreiddiol planhigion neu anifeiliaid e.e. buwch/gafr yn cynhyrchu llaeth sy'n cael ei droi'n fenyn, yn gaws, yn iogwrt etc; tatws yn cael eu berwi, eu stwnsio, eu rhostio, eu torri'n sgldion, eu gwneud yn greision neu'n wafflau.
- Y plant i ddefnyddio'r gweithgaredd grwpio (gweithgaredd rhyngweithiol 1.2) i lusgo lluniau a'u rhannu'n ddau grŵp: bwydydd sy'n dod o blanhigyn/anifail.
- Y plant i drafod bwydydd eraill ac a ydyn nhw'n dod o blanhigion neu anifeiliaid. Olrhain bwydydd wedi'u prosesu i'r man cychwyn e.e. gwneir pasta o flawd – daw blawd o rawn – daw grawn yn wreiddiol o blanhigyn.
- Y plant i drafod y bobl sy'n rhan o'r holl brosesau hyn.
- Defnyddio'r gweithgaredd dominos (PDF 1.3) i gydweddu'r bwyd â'r man cychwyn e.e. wyau i gyw iâr.

Cwestiynau posib

- Beth yw'r bwydydd hyn?
- Ydych chi'n eu hoffi/casáu?
- O ble maen nhw'n dod?
- Oes rhywun yn eu tyfu?
- Ble rydyn ni'n eu prynu fel arfer?
- Allwn ni brynu bob un o'r rhain yn yr archfarchnad?
- Beth arall allwn ni ei wneud o datws/llaeth?



Gweithgaredd 2: Ffit ac iach

Nod:

- Galluogi'r plant i ddeall ac adnabod pwysigrwydd bwyta'n dda ac ymarfer

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

- Deall ac adnabod y newidiadau sy'n digwydd i'w cyrff wrth iddynt wneud ymarfer corff, a disgrifio'r newidiadau sy'n digwydd i'w hanadl, cyflymder curiad eu calon, eu hymddangosiad a'u teimladau (DPChLIADd)
- Datblygu dealltwriaeth o'r ffaith bod ymarfer corff a hylendid a'r mathau cywir o fwyd a diod yn bwysig er mwyn cael corff iach (DPChLIADd)
- Adnabod yr effeithiau a gaiff ymarfer corff ar eu cyrff wrth iddynt symud (DC)
- Disgrifio'r hyn sy'n digwydd i'w hanadl a sut y maent yn ymddangos ac yn teimlo ar ôl gwneud ymarfer corff (DC)
- Dechrau deall bod ymarfer corff rheolaidd yn gwella iechyd a ffitrwydd, a'i fod yn helpu rhannau'r corff i weithio'n dda (DC)

Ystod:

- Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt wneud dewisiadau iach, a datblygu a deall eu cyrff eu hunain a sut y gallant eu cadw'n ddiogel ac yn iach (DPChLIADd)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Adnabod pwysigrwydd bwyta'n dda ac ymarfer

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Ar ôl gwersi Addysg Gorfforol, trafod sut maen nhw'n teimlo a pha newid maen nhw'n ei sylwi yn ei gilydd.

Adnoddau ar y CD:

- 2.1 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau/delweddau a'u defnyddio i gychwyn trafodaeth am ba luniau sy'n dangos gweithgaredd anegniol neu egniol.
- 2.2 Gweithgaredd graddio (PDF): Gallwch drefnu'r lluniau/delweddau ar ffurf grid diemwnt gyda'r un mwyaf egniol ar y top a'r lleiaf egniol ar y gwaelod.

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach - gweithgaredd â ffocws wedi'i gyfoethogi

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Trafod yr ymarfer corff maen nhw'n ei wneud yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol



Gweithgareddau

Cynnar/amlygu/datblygu

- Y plant i edrych ar y delweddau yn y lluniau (gweithgaredd PDF 2.1) a thrafod beth mae'r lluniau'n ei ddangos. Trafod a ydyn nhw'n weithgareddau mae'r plant yn eu gwneud yn rheolaidd; trafod faint ohonyn nhw'n sy'n mynd i weithgareddau'r tu allan i'r ysgol fel dawnsio/karate/pêl-droed/nofio.
- Creu pictogram o'r dosbarth yn dangos y gweithgareddau mae'r plant yn eu gwneud y tu allan i'r ysgol.
- Trafod sut maen nhw'n teimlo ar ôl bob un o'r gweithgareddau; trafod a ydy pob un yn gwneud iddyn nhw deimlo'n boeth, byr eu hanadl a chwyslyd, neu'n gwneud i'w calon guro'n gyflymach.
- Trafod pa reolau hylendid sydd angen eu dilyn ar ôl ymarfer corff a pham.
- Trafod a ydy'r plant yn y lluniau'n gwneud y gweithgareddau ar eu pen eu hunain neu fel grŵp.
- Trafod pam mae'n bwysig gwneud pethau fel grŵp yn ogystal ag ar eu pen eu hunain.
- Y plant i drafod a phenderfynu fel grŵp pa luniau sy'n dangos pethau sy'n egnïol h.y. yn eu gwneud nhw'n boeth, chwyslyd, byr eu hanadl a pha bethau sy'n anegniol. Trafod beth rydyn ni'n ei feddwl gyda gweithgareddau egnïol ac anegniol.
- Gofyn i'r plant raddio'r lluniau (gweithgaredd PDF 2.2) o'r rhai mwyaf egnïol i'r rhai lleiaf egnïol.
- Trafod pam mae angen gweithgareddau egnïol ac anegniol arnon ni mewn diwrnod neu wythnos.

Cwestiynau posib

- Beth mae'r lluniau hyn yn ei ddangos?
- Pa weithgareddau rydych chi'n eu gwneud naill ai yn yr ysgol neu'r tu allan i'r ysgol?
- Pa rai sy'n weithgareddau anegniol? Allwch chi feddwl am fwy?
- Pa rai sy'n weithgareddau egnïol? Allwch chi feddwl am fwy?
- Sut rydych chi'n teimlo yn ystod ymarfer corff?
- Sut rydych chi'n teimlo ar ôl ymarfer corff?
- Pa weithgareddau sydd fwyaf egnïol?
- Pam mae angen i ni ymarfer?
- Beth sydd angen ei wneud ar ôl ymarfer?
- Pa weithgaredd rydych chi'n meddwl sydd fwyaf anegniol/egniol?
- Pa weithgareddau allwch chi eu gwneud gyda'ch ffrindiau/teulu?
- Pa rai rydych chi'n tueddu i wneud ar eich pen eich hun?



Gweithgaredd 3: Bwyta'n iach

Nod:

- Galluogi plant i ddechrau deall bod angen cyfuniad o fwydydd ar bawb ac nad oes gan bawb ddigon o fwyd, dŵr glân, amgylchedd diogel a pherthnasau da

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

- Datblygu dealltwriaeth o'r ffaith bod ymarfer corff a hylendid a'r mathau cywir o fwyd a diod yn bwysig er mwyn cael corff iach (DPChLIADd)
- Gweld cysylltiadau rhwng achos ac effaith (GDB)

Ystod:

- Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt wneud dewisiadau iach, a datblygu a deall eu cyrff eu hunain a sut y gallant eu cadw'n ddiogel ac yn iach (DPChLIADd)

ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Deall bod angen cyfuniad o fwydydd ar bawb
- Deall nad oes gan bawb ddigon o fwyd, dŵr glân, amgylchedd diogel a pherthnasau da

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Addasu'r ardal chwarae rôl i fod yn gaffi.

Adnoddau ar y CD:

- 3.1 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau a'u defnyddio i gychwyn trafodaeth am fwydydd a diodydd 'iach'.
- 3.2 Gweithgaredd grwpio (rhyngweithiol): Yn y gweithgaredd hwn, rhaid i'r plant rannu'r bwydydd a'r diodydd yn ddau grŵp – eu cael yn aml/eu cael yn llai aml.

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- Bwrdd gwyn rhyngweithiol
- Diod a bwyd plastig

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws neu wedi'i gyfoethogi

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Trafod â'r plant beth fydden nhw'n ei werthu mewn 'caffi iach'



Gweithgareddau

Amlygu/datblygu

- Dangos lluniau o fwydydd a diodydd i'r plant (gweithgaredd PDF 3.1) a'u trafod.
- Creu pictogram o hoff fwydydd a diodydd y plant.
- Trafod a oes rhai o'r bwydydd yn fwydydd 'iach'. Beth ydyn ni'n ei feddwl wrth ddweud bod bwyd yn 'iach'?
- Trafod a ydy hyn golygu na ddylen ni byth fwyta neu yfed mathau eraill o fwyd a diod. Pwysleisio mai swm ac ansawdd beth rydyn ni'n ei fwyta sy'n bwysig. Gallwn fwyta llawer o rai bwydydd, ond rhaid bod yn gymedrol wrth fwyta bwydydd eraill.
- Trafod â'r plant pa fwydydd ddylen ni eu bwyta'n aml a pha fwydydd ddylen ni eu bwyta'n llai aml.
- Trafod pam mae angen amrywiaeth o fwydydd ar ein cyrff – mae bara/siwgr/pasta etc yn rhoi egni i ni; mae cig/pysgod/cynnyrch llaeth yn gwneud i ni dyfu; mae ffrwythau a llysiau yn ein cadw ni'n iach.
- Defnyddio'r gweithgaredd grwpio (gweithgaredd rhyngweithiol 3.2) i rannu lluniau o fwydydd a diodydd yn ddau grŵp: 'eu cael yn aml' ac 'eu cael yn llai aml'.
- Trafod a yw pawb yn y byd yn bwyta'r un bwyd â ni. Blasau bwydydd o wledydd gwahanol. Os oes plant o wledydd neu ddiwylliannau eraill yn yr ysgol, gofyn i deuluoedd y plant a fydden nhw'n dod i'r ysgol i ddangos neu sôn am fwydydd traddodiadol eu gwledydd.
- Trafod a oes gan bob plentyn yn y byd ddigon i'w fwyta neu ddŵr glân. Bydd gan lawer o elusennau swyddog addysg a wnaiff ddod i'r ysgol i siarad am eu gwaith mewn gwledydd eraill. Mae'n bwysig rhoi barn gytbwys am wlad neu ardal er mwyn peidio ag atgyfnerthu stereoteipiau. I lawer o blant, does ganddyn nhw ddim bwyd a dŵr glân oherwydd rhyfel, trychineb naturiol a ffactorau amgylcheddol fel newyn. Nid tlodi yw'r achos bob amser. Mae gan sefydliadau fel Water Aid a Dŵr Cymru adnoddau sy'n esbonio pa mor bwysig ydy dŵr glân – yn aml, caiff y pwnc hwn ei fethu gan blant sy'n tueddu i ganolbwyntio ar fwyd.

Cwestiynau posib

- Pa rai o'r bwydydd hyn ydy eich hoff/cas fwydydd?
- Pa rai o'r bwydydd hyn ydych chi'n meddwl sy'n 'iach'?
- Beth ydyn ni'n feddwl gyda 'iach'?
- Ydy'n beth da i fwyta llawer o'r bwydydd hyn?
- Pam mae angen amrywiaeth o fwydydd ar ein cyrff?
- Pa fwydydd sy'n rhoi egni ni?
- Pa fwydydd sy'n gwneud i ni dyfu?
- Pa fwydydd sy'n cadw'n cyrff ni'n iach?
- Beth arall sydd ei angen ar ein cyrff?
- Ydy bwyd yn bwysicach na dŵr?
- Oes gan bawb yn y byd ddigon o ddŵr? Pam ddim?
- Oes gan bawb yn y byd ddŵr glân? Pam ddim?
- Ydy pawb yn y byd yn bwyta'r un bwyd â ni? Pam ddim?
- Pam maen nhw'n bwyta bwydydd gwahanol?



Thema 5: Iechyd

Nodiadau...



Yr Amgylchedd Naturiol

Adnabod cyfoeth, amrywiaeth a gwerth amgylcheddau naturiol a sut gallan nhw effeithio ar, a chael eu heffeithio gan weithredoedd bodau dynol.

Cyflwyniad

Nod yr adnodd addysgu hwn yw annog plant yn y Cyfnod Sylfaen, 3-7 oed, i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u hamgylchedd a'u hannog i fwynhau'r hyn sydd o'u cwmpas a gofalu amdano. Wrth ddefnyddio'r adnodd, bydd plant yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru fel gwlad amlddiwylliannol. Byddan nhw hefyd yn gwerthfawrogi gwerth yr amrywiaeth honno ac yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'u rôl nhw fel dinasyddion byd-eang.

Mae'r adnodd hwn yn seiliedig ar un o'r saith thema Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) a nodir yn ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion', sef:

1. Cyfoeth a thlodi
2. Treuliant a gwastraff
3. Hunaniaeth a diwylliant
4. Newid yn yr hinsawdd
5. Iechyd
6. Yr amgylchedd naturiol
7. Dewisiadau a phenderfyniadau

Mae gan bob thema 3 gweithgaredd. Ym mhob gweithgaredd, nodir cysylltiadau i'r 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru' yn ogystal ag ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'. Dim ond awgrymiadau yw'r cysylltiadau hyn a bydd ymarferwyr yn sicrhgu weld rhagor o gysylltiadau i feysydd dysgu eraill ac i'r 'Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru'.

Y bwriad yw i bob gweithgaredd fod mor hyblyg â phosib. Nid ydyn ni'n awgrymu faint o amser i'w dreulio ar bob gweithgaredd. Gall yr ymarferydd fonitro diddordeb y plant er mwyn pennu hyd y gweithgaredd.

Mae'r gweithgareddau wedi'u llunio i'w defnyddio yn ystod tasgau â ffocws neu gyfleoedd dysgu wedi'u cyfoethogi. Dylai'r ymarferwyr ddewis a dethol sut i'w defnyddio'n briodol gan ystyried cyfnod datblygiad y plant. Bydd unrhyw weithgareddau rhagarweiniol a dilynol yn seiliedig ar ddatblygiad y plant ac unrhyw ddiddordebau ac awgrymiadau a fynegir. Hefyd, byddan nhw'n gysylltiedig ag unrhyw weithgareddau sy'n amlygu a/neu weithgareddau arfaethedig. Dylai cyfleoedd i hybu datblygiad creadigol gael eu plethu drwy'r gweithgareddau hyn e.e. chwarae rôl, drama, canu, dawnio, celf.

Thema 6: Yr Amgylchedd Naturiol

Gweithgaredd 1: Beth ydw i?

Nod:

- Deall amrywiaeth pethau byw a galluogi plant i adnabod, cydweddu a grwpio anifeiliaid a phlanhigion cyfarwydd yn eu hamgylchedd lleol

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

- Datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u cwmpas a deall yr hyn sydd gan eu hamgylchedd i'w gynnig iddynt pan fyddant yn chwarae ar eu pen eu hunain a gydag eraill (DPChLIADD)
- Llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau (GDB)
- Defnyddio geiriau ac ymadroddion syml ar gyfer eu byd ac ymgyfarwyddo â'r geiriau hynny (GDB)

Ystod:

- Adnabod rhai anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr amgylchedd a geir yn yr awyr agored (GDB)
- Arsylwi gwahaniaethau rhwng anifeiliaid a phlanhigion, rhwng gwahanol anifeiliaid a rhwng gwahanol blanhigion er mwyn eu grwpio (GDB)

ADCDF 'Cydd-dealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Deall amrywiaeth pethau byw

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Mynd am dro yn yr amgylchedd lleol (ardal awyr agored y Cyfnod Sylfaen/tir yr ysgol/yr amgylchedd ehangach) i edrych ar blanhigion ac anifeiliaid. Helfa fwystfilod bach.

Adnoddau ar y CD:

- 1.1 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau a'u defnyddio i gychwyn trafodaeth am greaduriaid bach a'u cynefin. Bydd yr un delweddau'n cael eu defnyddio mewn gweithgareddau rhyngweithiol a PDF: coed, dant y llew, blodyn menyn, malwoden, gwlithen, pry lludw, pry genwair/mwydyn a phry cop/corryn.
- 1.2 Gweithgaredd dis (PDF): Gallwch argraffu'r PDF (A3 fyddai orau) i greu dis, neu gallwch dorri'r lluniau a'u gosod mewn 'pocedi wyneb' ar ddis mawr fel y rhai a ddefnyddir mewn gweithgareddau mathemateg yn aml. Y plant i eistedd mewn cylch a thaflu'r dis. Y plant wedyn i drafod pa bynnag ddelwedd mae'r dis wedi glanio arni.
- 1.3 Gweithgaredd grwpio (rhyngweithiol): Yn y gweithgaredd hwn, rhaid i'r plant rannu gwahanol blanhigion/bwystfilod bach yn grwpiau gan ddefnyddio eu meini prawf eu hunain. Nid oes ateb cywir neu anghywir – os ydy ateb y plentyn yn gwneud synnwyr, yna mae'n hynny'n iawn. Er enghraifft, gallai'r plant benderfynu rhannu'r planhigion/bwystfilod bach yn grwpiau hoffi/ddim yn hoffi.

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- Dail, blodau a chreaduriaid bach a gasglwyd yn yr awyr agored (gallwch lamineiddio dail ffres – byddan nhw'n para am nifer o flynyddoedd); microsgop digidol; bwystfilod bach plastig; cylchoedd trefnu; bwrdd gwyn ar gyfer y gweithgaredd llusgo a gollwng.

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- **Gweithgareddau awyr agored:** Y plant i fynd ar daith gerdded dymhorol/helfa fwystfilod bach ac edrych ar/casglu/tynnu lluniau o ddail, blodau a chreaduriaid bach. Gallai fod o help i chi osod trapiau i ddal bwystfilod bach y diwrnod cynt (potiau iogwrt wedi'u plannu yn y ddaear gyda'u topiau'r un lefel â'r pridd) fel bod anifeiliaid nosol yn disgyn i mewn i'r trapiau er mwyn i chi allu edrych arnyn nhw drannoeth. Gallwch wneud hyn yn yr ardal awyr agored neu ar dir yr ysgol. I ysgolion heb lawer o dir, byddai modd rhoi dalen o bapur neu gynfas ar y llawr a brwsio'r waliau neu ysgwyd coeden neu lwyn (fe synnwch chi beth welwch chi). Hyd yn oed mewn ardaloedd tarmac, bydd pentwr o bren neu gerrig yn denu pob math o greaduriaid bach. Defnyddiwch fath babi neu bowlen golchi llestri fel pwll dŵr dros dro (defnyddiwch ddŵr o bwl/camlas/nant leol).

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws neu wedi'i gyfoethogi

Thema 6: Yr Amgylchedd Naturiol



Gweithgareddau

Cynnar/amlygu

- Y plant i enwi bwystfilod bach a phlanhigion.
- Edrych ar ddail, blodau a bwystfilod bach.
- Disgrifio'r nodweddion arsylladwy (lliw, siâp, nifer y coesau).
- Edrych ar ddail, blodau a phlanhigion o dan y microsgop digidol.
- Os oes rhai ar gael, cydweddu bwystfilod bach plastig â rhai go iawn.
- Defnyddio'r gêm ddis (gweithgaredd PDF 1.2) i adnabod ac enwi planhigion ac anifeiliaid.

Amlygu/datblygu

- Fel Cynnar/amlygu, ond yn ogystal, edrych ar ffotograffau (gweithgaredd PDF 1.1) i weld a yw'r plant yn gallu cydweddu'r lluniau â'r hyn maen nhw wedi dod o hyd iddo. Os nad oes llun ar gyfer deilen/blodyn/bwystfil bach, yna tynnwch lun digidol a'i ychwanegu at yr oriel.
- Trafod ble cafwyd hyd iddyn nhw yn yr amgylchedd.
- Defnyddio nodweddion arsylladwy i grwpio yn ôl meini prawf syml h.y. lliw, siâp, nifer y coesau. (Gweithgaredd rhyngweithiol 1.3)
- Defnyddio microsgop digidol i gynhyrchu lluniau o rannau o flodau, dail a bwystfilod bach y gellir eu cydweddu â bwystfilod bach go iawn/plastig.

Datblygu/atgyfnerthu

- Defnyddio dis lluniau a dis geiriau (gweithgaredd PDF 1.2). Taflu'r ddau ddis a dweud a yw'r gair yn cydweddu â'r llun ai peidio.
- Defnyddio'r nodweddion arsylladwy i grwpio yn ôl meini prawf syml h.y. lliw, siâp, a nifer y coesau etc (gweithgaredd rhyngweithiol 1.3) a rhoi rheswm pam i chi eu rhoi yn y grŵp hwn.
- Rhoi rheswm posib dros leoliad y planhigyn/bwystfil h.y. pry lludw o dan garreg, dim ond planhigion sy'n blodeuo yn y gwanwyn o dan goed mewn coetiroedd.

Cwestiynau posib

- Ydych chi'n gwybod beth ydy'r enw ar hwn?
- Ddaethon ni o hyd i un o'r rhain ar ein taith gerdded dymhorol?
- Ble roedd o? Ai planhigyn neu anifail ydy o?
- Sut rydyn ni'n gwybod hynny?
- Disgrifiwch sut olwg sydd arno?
- Ddaethon ni o hyd iddo yn unrhyw le arall?
- Ydych chi wedi gweld un adref/yn yr ardd?
- Allwch chi eu rhannu nhw'n grwpiau?
- Pam roesoch chi nhw yn y grwpiau hynny?
- Allwch chi eu rhoi nhw mewn grwpiau gwahanol?

Thema 6: Yr Amgylchedd Naturiol



Gweithgaredd 2: Jig-so

Nod:

- Galluogi plant i ddeall amrywiaeth pethau byw; adnabod a chydweddu anifeiliaid a phlanhigion yn eu hamgylchedd lleol

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

Ystod:

- Datblygu diddordeb cynyddol yn y byd o'u cwmpas a deall yr hyn sydd gan eu hamgylchedd i'w gynnig iddynt pan fyddant yn chwarae ar eu pen eu hunain a gydag eraill (DPChLIADD)
- Llunio cymariaethau ac adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau (GDB)
- Defnyddio geiriau ac ymadroddion syml ar gyfer eu byd ac ymglyfarwyddo â'r geiriau hynny (GDB)
- Adnabod rhai anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr amgylchedd a geir yn yr awyr agored (GDB)
- Arsylwi gwahaniaethau rhwng anifeiliaid a phlanhigion, rhwng gwahanol anifeiliaid a rhwng gwahanol blanhigion er mwyn eu grwpio (GDB)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Deall amrywiaeth pethau byw

Paratoi

Adnoddau ar y CD:

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- 2.1 Gweithgaredd jig-so (rhyngweithiol): Gweithgaredd 'llusgo a gollwng' ydy hwn, ond gallech ei argraffu a'i lamineiddio i greu darnau jig-so go iawn. Mae dwy lefel i'r gweithgaredd (pedwar pâr ac wyth pâr). Cynnwys/amlygu – rhaid i'r plant gydweddu dwy ddelwedd sydd yr un peth i gwblhau'r jig-so. Datblygu/atgyfnerthu – rhaid i'r plant gydweddu delwedd â gair i gwblhau'r jig-so.
- 2.2 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau a'u defnyddio i gychwyn trafodaeth am y bwystfilod bach, eu cynefin etc.
- 2.3 Gweithgaredd dominos (PDF): Gallwch argraffu'r PDF a'i lamineiddio i wneud dominos. Fel hyn, gall y plant eu defnyddio'r tu mewn neu'r tu allan fel gweithgaredd wedi'i gyfoethogi. Byddai argraffu ar bapur A3 yn gwneud darnau mwy a fyddai'n haws i blant ifanc eu trin. Cynnwys/amlygu – rhaid cydweddu delweddau. Datblygu/atgyfnerthu – rhaid cydweddu delweddau â geiriau.
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol ar gyfer gweithgaredd llusgo a gollwng

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws wedi'i gyfoethogi
- Mynd dros weithgaredd blaenorol. Defnyddio delweddau (gweithgaredd PDF 2.2) i weld faint o ddail/blodau/bwystfilod bach mae'r plant yn gallu eu henwi.

Thema 6: Yr Amgylchedd Naturiol



Gweithgareddau

Cynnar/amlygu

- Y plant i roi darnau jig-so at ei gilydd gan gydweddu delwedd â delwedd (gweithgaredd rhyngweithiol 2.1).
- Y plant i roi dominos at ei gilydd gan gydweddu delwedd â delwedd (gweithgaredd PDF2.3).

Datblygu/atgyfnerthu

- Y plant i roi darnau jig-so at ei gilydd gan gydweddu delwedd ag enw (gweithgaredd rhyngweithiol 2.1).
- Y plant i roi dominos at ei gilydd gan gydweddu delwedd ag enw (gweithgaredd PDF2.3).

Cwestiynau posib

- Ydych chi'n cofio'r rhain ers y tro diwethaf?
- Ydych chi'n gwybod beth ydy enw hwn?
- Ddaethon ni o hyd i un ar ein taith gerdded dymhorol?
- Ble roedd o? Ai planhigyn neu anifail ydy o?
- Sut rydyn ni'n gwybod hynny?
- Allwch chi ddisgrifio sut olwg sydd arno?
- Ddaethon ni o hyd iddo yn unrhyw le arall?
- Ydych chi wedi gweld un adref/yn yr ardd?
- Allwch chi gael hyd i'r ddau ddarn i wneud jig-so?
- Allwch chi gael hyd i'r domino nesaf i barhau â'r llinell?

Thema 6: Yr Amgylchedd Naturiol



Gweithgaredd 3: Chwilio a darganfod

Nod:

- Trafod beth fydden nhw'n gallu ei wneud i niweidio neu wella'r amgylchedd.

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

Ystod:

- Dangos gofal, parch a hoffter at blant eraill, oedolion a'u hamgylchedd (DPChLIADD)
- Dechrau deall sut y gallant warchod yr amgylchedd a bod yn garedig iddo yn eu bywyd o ddydd i ddydd (DPChLIADD)
- Adnabod sut y gall gweithredoedd pobl wella neu niweidio'r amgylchedd (GDB)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Gofalu am yr amgylchedd a chydabod ei bwysigrwydd
- Deall y gall gweithredoedd pobl wella neu ddifrodi'r amgylchedd

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Cerdded o gwmpas tir yr ysgol neu ardal ehangach yn chwilio am beth ddylai/na ddylai fod yno. Ar gyfer ysgolion heb broblem sbwriel, efallai bydd yn rhaid plannu sbwriel yno! Gallech gasglu eitemau a chymryd ffotograff ohonyn nhw yn y fan a'r lle i ddangos ble cafwyd hyd iddyn nhw.

Adnoddau ar y CD:

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- 3.1 Gweithgaredd chwilio (rhyngweithiol): Yn y gweithgaredd hwn, y plant i nodi pa wrthrychau ddylai ddim bod yn yr amgylchedd hwnnw a'u llusgo oddi yno. Coetir yw'r amgylchedd dan sylw ac mae rhai o'r gwrthrychau'n anifeiliaid sydd ddim yn byw mewn coetir, fel siarc, ac eraill yn sbwriel/pethau synthetig.
- Bwrdd gwyn rhyngweithiol ar gyfer y gweithgaredd llusgo a gollwng

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws neu weithgaredd wedi'i gyfoethogi
- Trafod bwystfilod bach a phlanhigion a gasglwyd mewn gweithgareddau blaenorol. Ble cawson nhw hyd iddyn nhw? Esbonio mai dyma eu cynefin neu eu cartref nhw. Efallai y gallech wneud 'llanast/annibendod' yn y gornel gartref a gollwng sbwriel 'glân' yma ac acw. Sut mae hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo? Ydyn nhw'n teimlo'n ddig/wedi cynhyrfu? Ydy hyn yn beryglus? Ai dyma sut mae bwystfilod bach a phlanhigion yn 'teimlo' pan fydd eu cynefinoedd/cartrefi yn cael eu hamharchu.



Thema 6: Yr Amgylchedd Naturiol

Gweithgareddau

Datblygu/atgyfnerthu

- Trafod y pethau a gasglodd y plant ar eu taith o gwmpas yr ysgol a gofyn o ble daethon nhw.
- Defnyddio gweithgaredd chwilio a darganfod (3.1), naill ai wedi'i argraffu ar bapur neu ar fwrdd gwyn, er mwyn i'r plant gael darganfod a chael gwared ar wrthrychau ddylai ddim bod yn yr amgylchedd.
- Trafod y pethau maen nhw wedi cael gwared arnyn nhw a holi pam iddyn nhw wneud hynny.
- Y plant i awgrymu ble i roi'r gwrthrychau maen nhw'n eu casglu.

Cwestiynau posib

- Oes unrhyw beth yn y llun hwn ddylai ddim bod yno?
- Pam ddylai hwn ddim bod yno?
- Ble rydych chi'n meddwl dylai fod?
- Sut ydych chi'n meddwl iddo gyrraedd yno?
- Sut gallwn ni wella cynefin/cartref yr anifeiliaid a'r planhigion?



Thema 6: Yr Amgylchedd Naturiol

Nodiadau...



Dewisiadau a Phenderfyniadau

Datblygu hunan-barch a pharch at eraill, derbyn cyfrifoldeb am weithredoedd personol a chymryd rhan mewn penderfyniadau grŵp. Deall bod canlyniadau ein gweithredoedd ni'n effeithio ar eraill.

Cyflwyniad

Nod yr adnodd addysgu hwn yw annog plant yn y Cyfnod Sylfaen, 3-7 oed, i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u hamgylchedd a'u hannog i fwynhau'r hyn sydd o'u cwmpas a gofalu amdano. Wrth ddefnyddio'r adnodd, bydd plant yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru fel gwlad amlddiwylliannol. Byddan nhw hefyd yn gwerthfawrogi gwerth yr amrywiaeth honno ac yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'u rôl nhw fel dinasyddion byd-eang.

Mae'r adnodd hwn yn seiliedig ar un o'r saith thema Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) a nodir yn ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion', sef:

1. Cyfoeth a thlodi
2. Treuliant a gwastraff
3. Hunaniaeth a diwylliant
4. Newid yn yr hinsawdd
5. Iechyd
6. Yr amgylchedd naturiol
7. Dewisiadau a phenderfyniadau

Mae gan bob thema 3 gweithgaredd. Ym mhob gweithgaredd, nodir cysylltiadau i'r 'Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru' yn ogystal ag ADCDF 'Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'. Dim ond awgrymiadau yw'r cysylltiadau hyn a bydd ymarferwyr yn sicr o weld rhagor o gysylltiadau i feysydd dysgu eraill ac i'r 'Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru'.

Y bwriad yw i bob gweithgaredd fod mor hyblyg â phosib. Nid ydyn ni'n awgrymu faint o amser i'w dreulio ar bob gweithgaredd. Gall yr ymarferydd fonitro diddordeb y plant er mwyn pennu hyd y gweithgaredd.

Mae'r gweithgareddau wedi'u llunio i'w defnyddio yn ystod tasgau â ffocws neu gyfleoedd dysgu wedi'u cyfoethogi. Dylai'r ymarferwyr ddewis a dethol sut i'w defnyddio'n briodol gan ystyried cyfnod datblygiad y plant. Bydd unrhyw weithgareddau rhagarweiniol a dilynol yn seiliedig ar ddatblygiad y plant ac unrhyw ddiddordebau ac awgrymiadau a fynegir. Hefyd, byddan nhw'n gysylltiedig ag unrhyw weithgareddau sy'n amlgu a/neu weithgareddau arfaethedig. Dylai cyfleoedd i hybu datblygiad creadigol gael eu plethu drwy'r gweithgareddau hyn e.e. chwarae rôl, drama, canu, dawnsio, celf.



Gweithgaredd 1: Rheolau

Nod:

- Bod plant yn cael gwrandawriad i'w barnau ac yn gwrandao ar farnau pobl eraill ac yn gweld bod rheolau'n helpu pawb

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

Ystod:

- Datblygu dealltwriaeth o ddisgwyliadau'r lleoliad/ysgol o ran ymddygiad, a deall bod rheolau'n hanfodol mewn cymuned drefnus (DPChLIADD)
- Deall rheolau ac elfennau gemau (DC)
- Dechrau deall pwysigrwydd codi, cario, gosod a defnyddio offer yn ddiogel (DC)
- Gweithgareddau sy'n cyfrannu at eu diogelwch eu hunain (DPChLIADD)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Cael gwrandawriad i'w barnau ac yn gwrandao ar farnau pobl eraill
- Gweld bod rheolau'n helpu pawb

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Chwilio am enghreifftiau o reolau e.e. gemau, crefyddau, croesi'r ffordd

Adnoddau ar y CD:

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- 1.1 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau hyn a'u defnyddio i gychwyn trafodaeth am y rheolau sydd wedi'u hargraffu arnyn nhw.
- 1.2 Gweithgaredd graddio (PDF): Gallwch drefnu'r rheolau ar grid diemwnt gan roi'r pwysicaf ar y top a'r lleiaf pwysig ar y gwaelod.
- Rheolau'r dosbarth, rheolau'r ysgol, rheolau gemau

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach - gweithgaredd â ffocws neu wedi'i gyfoethogi
- Trafod y gwahanol fathau o reolau o gwmpas yr ysgol



Gweithgareddau

Cynnar/amlygu

- Y plant i ddarganfod cymaint o enghreifftiau â phosib o reolau o gwmpas yr ystafell ddosbarth.
- Gallai'r rhain gynnwys rheolau am faint sy'n cael cymryd rhan mewn gweithgareddau ar unrhyw adeg e.e. faint o blant sy'n cael defnyddio'r gornel dywod/ddŵr.
- Trafod pam mae angen rheolau arnon ni.
- Yn ystod y wers addysg gorfforol, trafod rheolau ac elfennau gemau yn ogystal â rheolau ar gyfer symud/defnyddio offer yn ddiogel.
- Trafod a yw'r rhain yn wahanol i reolau ar sut i groesi'r ffordd, gwisgo gwregysau diogelwch, peidio â mynd i'r môr pan fydd y faner goch yn hedfan.
- Y plant i edrych ar y rheolau yn y lluniau (gweithgaredd PDF 1.1) a thrafod pam mae'r rheolau hyn yn bwysig.
- Y plant i benderfynu ai rheolau i ddweud wrthyn ni beth i'w wneud neu i'n cadw ni'n ddiogel ydyn nhw.
- Y plant i drafod pwy sy'n gwneud y rheolau.

Datblygu/atgyfnerthu

- Fel Cynnar/amlygu, ond hefyd y plant i drafod a oes rhai rheolau'n bwysicach na'i gilydd.
- Gofyn i'r plant raddio'r rheolau (gweithgaredd PDF 1.2) o'r rhai pwysicaf i'r rhai lleiaf pwysig. Y plant i roi rhesymau am eu dewisiadau.
- Y plant i edrych o gwmpas yr ysgol am enghreifftiau eraill o reolau.
- Trafod a oes rheolau y tu allan i'r ysgol a phwy sy'n gwneud yn siŵr bod pobl yn cadw atyn nhw.
- Gwahodd heddwas/heddferch leol i siarad â'r plant am gyfreithiau a pham mae'n rhaid eu cael.
- Gwahodd arweinwyr crefyddol lleol i siarad â'r plant am reolau crefyddol ac o ble maen nhw'n dod.

Cwestiynau posib

- Pam mae rheolau gennym ni?
- Oes rhai rheolau'n bwysicach nag eraill?
- Pwy sy'n gwneud y rheolau?
- Ydych chi wedi cael cyfle i wneud unrhyw reolau?
- Ydyn ni'n cytuno â nhw?
- Pwy sy'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n cadw at y rheolau?



Thema 7: Dewisiadau a Phenderfyniadau

Gweithgaredd 2: Ydy hyn yn deg?

Nod:

- Galluogi plant i ddeall bod canlyniadau i ddewisiadau a phenderfyniadau
- Galluogi plant i ddatblygu ffyrdd o osgoi a datrws anghydfod
- Galluogi plant i archwilio dilemâu cymdeithasol a moesol trwy ymholi mewn grŵp

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

- Cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain (DPChLIADD)
- Ystyried goblygiadau geiriau a gweithredoedd iddynt hwy eu hunain ac eraill (DPChLIADD)
- Datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n deg ac yn annheg, a bod yn barod i gyfaddawdu (DPChLIADD)

Ystod:

- Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddechrau deall sut y gallant warchod yr amgylchedd a bod yn garedig iddo yn eu bywyd o ddydd i ddydd (DPChLIADD)
- Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddatrys problemau a thrafod canlyniadau (DPChLIADD)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Deall bod canlyniadau i ddewisiadau a phenderfyniadau
- Deall ffyrdd o osgoi a datrws anghydfod
- Deall y gallant archwilio dilemâu cymdeithasol a moesol trwy ymholi mewn grŵp

Paratoi

Adnoddau ar y CD:

- 2.1 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau a'u defnyddio i gychwyn sgwrs am wahanol sefyllfaoedd a beth allai/beth ddylai'r plant ei wneud ym mhob sefyllfa.
- 2.2 Gweithgaredd grwpio (rhyngweithiol): Yn y gweithgaredd hwn, rhaid i'r plant rannu'r lluniau'n ddau grŵp - plant yn helpu eraill a phlant sydd ddim yn helpu eraill.

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws wedi'i gyfoethogi

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Mynd dros weithgaredd blaenorol ar reolau a thrafod a fydden ni'n gwybod beth i'w wneud heb reolau



Thema 7: Dewisiadau a Phenderfyniadau

Gweithgareddau

Cynnar/amlygu

- Trafod y gweithgaredd blaenorol ar reolau ac a oes rheolau ar gyfer popeth mewn bywyd.
- Trafod bod angen i ni wybod beth i'w wneud hyd yn oed os nad oes rheolau.
- Edrych ar y lluniau (gweithgaredd PDF 2.1) a thrafod beth sy'n digwydd yn y llun.
- Trafod a yw'r plant yn y llun yn helpu neu ddim yn helpu.
- Trafod a yw'n deg neu'n annheg. Os yw'n annheg, pam dylen ni a sut gallen ni ei wneud yn fwy teg?
- Trafod beth allwch chi ei wneud i wella'r sefyllfa.

Datblygu/atgyfnerthu

- Fel Cynnar/amlygu, ond yn ogystal, trafod tybed sut mae'r plant yn y lluniau'n teimlo.
- Actio'r gwahanol rolau a gofyn i'r plant ofyn cwestiynau i archwilio tybed sut byddai plant eraill wedi teimlo yn y sefyllfaoedd hyn.
- Cael y plant i rannu'r sefyllfaoedd yn ddau grŵp (gweithgaredd rhyngweithiol 2.2): teg ac annheg.
- Gofyn i'r plant a oes enghreifftiau o annhegwch yn eu hysgol nhw ac os felly sut gallen ni wneud pethau'n fwy teg.

Cwestiynau posib

- Pam mae rheolau gennyn ni?
- Oes rheolau ar gyfer popeth?
- Beth sy'n digwydd yn y lluniau?
- Ydy hyn yn deg?
- Sug gallwn ni wneud pethau'n fwy teg?
- Sut gallwn ni helpu?
- Allwch chi feddwl am unrhyw enghreifftiau o annhegwch y gallech chi helpu i'w wella?



Thema 7: Dewisiadau a Phenderfyniadau

Gweithgaredd 3: Beth ydy'r diwedd?

Nod:

- Galluogi plant i ddeall bod canlyniadau i ddewisiadau a phenderfyniadau ac y gallant archwilio dilemâu cymdeithasol a moesol trwy ymholi mewn grŵp

Cysylltiadau

Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Sgiliau:

- Ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol syml gan roi rhesymau dros y penderfyniadau a wneir (DPChLIADd)
- Siarad am y dewisiadau sydd ar gael i unigolion, a thrafod p'un a yw'r dewisiadau hynny'n golygu bod gwneud penderfyniad yn haws neu'n fwy cymhleth (DPChLIADd)

Ystod:

- Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt gyfleu eu syniadau, eu gwerthoedd a'u credoau mewn perthynas â hwy eu hunain, pobl eraill a'r byd (DPChLIADd)
- Gweithgareddau sy'n caniatáu iddynt ddatrys problemau a thrafod canlyniadau (DPChLIADd)

ADCDF 'Cydddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion'

Ystod:

- Deall bod canlyniadau i ddewisiadau a phenderfyniadau
- Deall y gallant archwilio dilemâu cymdeithasol a moesol trwy ymholi mewn grŵp

Paratoi

Awgrym ar sut i baratoi

Mynd dros weithgareddau blaenorol ar sefyllfaoedd.

Adnoddau ar y CD:

- 2.1 Gweithgaredd lluniau (PDF): Gallwch argraffu'r lluniau hyn a'u defnyddio i gychwyn trafodaeth am wahanol sefyllfaoedd a beth allai/beth ddylai'r plant ei wneud ym mhob sefyllfa.
- 3.1 Gweithgaredd trefnu (rhyngweithiol): Yn y gweithgaredd hwn, rhaid i'r plant lusgo lluniau a'u gosod mewn trefn i ddangos sefyllfa a chanlyniad. Mae pedair sefyllfa â phedwar llun ym mhob un. Bydd y plant yn cael y sefyllfa gychwynnol ac yna'n gorfod dewis un llun allan o dri fel 'diwedd'.

Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen arnoch:

- Bwrdd gwyn rhyngweithiol

Rheoli'r ystafell ddosbarth:

- Unigolion/parau neu grwpiau bach – gweithgaredd â ffocws neu wedi'i gyfoethogi

Cyflwyniad/cefndir i'r wers:

- Mynd dros y gweithgaredd blaenorol ar sefyllfaoedd



Thema 7: Dewisiadau a Phenderfyniadau

Gweithgareddau

Datblygu/atgyfnerthu

- Trafod y gweithgaredd blaenorol a sut mae gan y plant ddewis o ran beth nhw'n ei wneud.
- Edrych ar y sefyllfa gychwynnol (gweithgaredd rhyngweithiol 3.1) a thrafod beth sy'n digwydd yn y llun.
- Edrych ar y tri diwedd posib a thrafod y canlyniadau o ddewis pob un.
- Actio'r dewisiadau a gofyn i'r plant ofyn cwestiynau er mwyn archwilio sut byddai plant eraill yn teimlo yn y sefyllfaoedd hyn.
- Trafod a yw mor syml ag ateb cywir neu anghywir neu a yw'n fwy cymhleth.

Cwestiynau posib

- Beth sy'n digwydd yn y llun yma?
- Ai dyma'r peth iawn i'w wneud?
- Pa lun fyddai'n rhoi diwedd hapus?
- Fyddai un o'r diweddau'n niweidio unrhyw un?



Thema 7: Dewisiadau a Phenderfyniadau

Nodiadau...

Adnoddau eraill gan Tinopolis ar gyfer y Cyfnod Sylfaen...



Fflic a Fflac, Pecyn 1

Y cyntaf o bedwar pecyn amlgyfrwng lliwgar i gynorthwyo datblygiad yr iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.

- 18 llyfr A4 lliwgar i'w darllen fel grŵp ac, yn ddiweddarach, gan y plant ar eu pen eu hunain
- Tri DVD â mwy na phedair awr o fideo lle mae cyflwynydd a dau byped hoffus yn helpu'r dysgwyr i siarad Cymraeg
- CD ROM rhyngweithiol sy'n cynnwys llyfryn cynhwysfawr i oedolion. Gyda fersiwn Gymraeg a Saesneg, mae'r CD ROM yn cynnwys yr holl ganeuon sydd ar y DVDs a fersiwn electronig o'r llyfrau. Mae hefyd yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau rhyngweithiol yn Gymraeg.



Fflic a Fflac, Pecyn 2

Mae Pecyn 2 yn datblygu'r dysgu ym Mhecyn 1. Mae'n cyflwyno mwy o batrymau iaith, mwy o eiriau a chaneuon a gweithgareddau newydd gan barhau gyda'r hwyl o ddysgu Cymraeg.

- 18 llyfr A4 sy'n cyflwyno storiâu newydd a strwythurau brawddeg ychydig yn hirach
- Tri DVD lle mae'r un pypedau a chyflwynydd newydd yn cael hwyl yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau newydd
- CD ROM sy'n dilyn fformat tebyg i Becyn 1. Mae'r canllawiau'n rhai estynedig ac yn nodi sut mae'r cynnwys wedi datblygu o Becyn 1 i Becyn 2, yn ogystal â'r gemau rhyngweithiol, y caneuon a'r storiâu.



Fflic a Fflac, Pecyn 3

Mae Pecyn 3 yn adnodd cynhwysfawr sy'n ddatblygiad o'r ddau becyn blaenorol. Mae'n cyflwyno anturiaethau newydd Fflic a Fflac a'u ffrindiau newydd, Lyn a Ceri.

- 15 llyfr, rhai A4 a rhai A5, yn ogystal â thri phecyn gweithgareddau, sy'n helpu i ennyn diddordeb y plant i chwarae a darllen yn Gymraeg.
- Tri DVD â thua chwe awr o fideo sy'n hwyl i'w wyllo. Mae'r fideo'n ailadrodd y strwythurau brawddeg blaenorol gan gyflwyno geirfa newydd a datblygu'r iaith i'r lefel nesaf.
- CD ROM gyda gemau newydd a threfn newydd er mwyn cynnal diddordeb y plant drwy'r Cyfnod Sylfaen heb fod yn rhy gyfarwydd.



Fflic a Fflac, Pecyn 4

Dyma'r olaf yn y gyfres. Mae'n cyflwyno sefyllfaoedd newydd ac yn codi hyder y gwrandawyr i ddefnyddio'r patrymau iaith maen nhw wedi'u dysgu mewn sefyllfaoedd newydd. Mae Lyn nawr yn cwrdd â ffrind arall, Alys, ac mae'r ddau'n mwynhau gweithgareddau ac anturiaethau newydd gyda Fflic a Fflac.

- 18 llyfr A5 i'w darllen yn annibynnol neu mewn grŵp. Gall rhai o'r llyfrau gael eu defnyddio i chwarae rôl ac mae eraill yn cynnwys rhigymau. Yn ogystal â'r llyfrau stori arferol, mae'r pecyn hwn yn cynnwys llyfrau ffeithiol.
- Tri DVD sy'n cyflwyno'r patrymau iaith a'r eirfa mewn fformat difyr.
- CD ROM sy'n datblygu ar y fformat a ddefnyddiwyd ym Mhecyn 3, ond yn cyflwyno cynnwys mwy heriol a diddorol.



Pypedau Fflic a Fflac

Beth am fwydo dychymyg y plant a dod ag anturiaethau Fflic a Fflac yn fyw gyda'r ddau byped llaw atyniadol hyn? Gyda chegau sy'n symud, byddan nhw'n ychwanegu ychydig o gyffro at y llyfrau a'r DVDs. Dysgu Cymraeg fydd uchafbwynt y diwrnod ysgol cyn hir!

- Maint y pypedau – tua 355mm o uchder



Amser Canu

Bwydych dychymyg plant meithrin ledled Cymru. Mae'r CD hwn yn gyflwyniad gwych i'r caneuon Cymraeg ym Mhecynnau 1 a 2. Yn fuan iawn, bydd y caneuon bachog hyn yn cael eu canu gan holl blant yr ysgol, y grŵp chwarae neu'r feithrinfa.



Pobl, Credoau a Chwestiynau

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys adnoddau a chanllawiau i athrawon ar gyfer datblygu addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen. Bydd yn helpu i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion am grefydd a materion crefyddol yn ogystal â'u sgiliau meddwl.

- Mae'r pecyn yn cynnwys pedwar llyfr A3 lliwgar a llawn darluniau gydag adrannau i'r athrawon a'r myfyrwyr.
- CD yn cynnwys nodiadau i athrawon gydag awgrymiadau ar weithgareddau a thrafodaethau yn y dosbarth, fersiynau i'w hargraffu o'r pedwar llyfr a gweithgaredd gêm gardiau.

I'w prynu neu er mwyn cael rhagor o wybodaeth amdanynt:

Ffôn: 01554 880888


Ebost: info@tinopolis.com

Arlein: www.tinopolisinteractive.com/shop



 tinopolisinteractive

ISBN 1-84713-120-4



9 781847 131201 >